

ECO'R WYDDFA

RHIF 308

CHWEFROR 2004

PRIS 40c

- Cyfarchion o
Seland Newydd – tud. 3
- Band Ieuenctid Deiniolen
– tud. 22
- Atgofion am weithio gyda
Gwilym Owen,
Siambar Selwyn – tud. 4

GWAWR Â'I THROED AR Y SBARDUN

Merch o Fro'r
Eco yn
chwilio am
nawdd i fedru
parhau â'i
llwyddiant



LLUN: BOB GARTSIDE, LLANBERIS

DYMA lun o Gwawr Hughes, sy'n ugain oed, gyda'r gwobrwyon a dderbyniodd yng nghinio blynyddol Clwb Moduro Siroedd Môn ac Arfon yn Amlwch ar 17 Ionawr.

Gwawr oedd cystadleuydd mwyaf llwyddiannus y Clwb yn y flwyddyn 2003. Fe enillodd nifer o ralis ceir ynghyd â bod yn gystadleuydd y flwyddyn, cystadleuydd gorau ymysg y merched, cystadleuydd gorau mewn rali

ffyrdd, a hi hefyd enillodd y wobwr o fod yr orau dros yr holl adrannau.

Yn ddiweddar bu Gwawr yn llwyddiannus yng Nghampwriaethau Clybiau Ceir y gogledd orllewin – sydd yn cynnwys Cymdeithas Clybiau

o ogledd Cymru a hefyd gogledd orllewin Lloegr. Yn y Campwriaethau yma enillodd Gwawr wobwr y Rali Geir Hanesyddol, y llywiwr ifanc (*navigator*) gorau, y llywiwr merched gorau, a hi hefyd enillodd yr anrhydedd o fod yr orau dros yr holl adrannau gwahanol i ferched a phobl ifanc.

Dechreuodd Gwawr lywio i'w thad, Noel Hughes, Cae Gadlys, Llanberis, pan oedd yn bedair ar ddeg oed. Erbyn hyn mae wedi bod yn llywio i yrwyr ceir amlycaf y wlad, mewn cystadlaethau yng Nghymru ac yn Lloegr. Uchafbwynt ei gyrfa llynedd oedd dod yn drydydd yn Rali Ryngwladol Ynys Manaw, yn y dosbarth Ford Ka.

Bydd Rali Ryngwladol Cymru wedi ei chanoli yn ardal Dolgellau eleni a bydd Gwawr, sy'n fyfyrwraig yn Aberystwyth, yn falch o dderbyn nawdd gan unigolion, busnesau a chymdeithasau, er mwyn ei galluogi i gymryd rhan yn y Rali hon, ac amryw eraill ledled Prydain.

Mae si ar led y bydd Gwawr yn derbyn cynnig i fod yn llywiwr i un o'r gyrwyr mwyaf adnabyddus yn y maes hwn yn y dyfodol agos.

Dywedodd Gwawr ei bod angen cefnogaeth a nawdd tra'i bod yn fyfyrwr, er mwyn medru manteisio ar y cynigion sy'n dod i'w rhan. Gellir cysylltu â Gwawr drwy ei thad.

Pob lwc i'r ferch ifanc yma yn y dyfodol.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 308
CHWEFROR 2004**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Eilidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, CHWEFROR 16

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 26

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mawrth	Chwefror 16	Chwefror 26	Llanrug	Iolo Llywelyn	

Llythyrau

9 Victoria Park
Bangor
LL57 2EW

Annwyl Olygydd

Chwilota

Mae'r sylwadau ar York Terrace
o ddiddordeb i mi, gan fy mod
wedi fy magu yn Rhif 4, tra
roedd fy nhaid yn byw yn Rhif 8
yn y 30'au.

Ie, tai i stiwardiaid oedden
nhw. Roedd fy ewythr, brawd fy
mam, wedi ein cymryd ni i'n
magu, ond bu farw yn 45 oed o'r
diciâu. Roedd yn chwarae'r
organ yn Nant Padarn a
dilynwyd o gan Alaw Mai, Mr
Richard Jones, oedd hefyd yn
stiward.

Roedd fy nhaid wedi
ymddeol ac ef a dalodd i Alaw
Mai ddechrau rhoi gwersi piano
i mi, gan iddyn nhw weld fy
mod i'n ceisio dysgu fy hun.
Ond bu taid farw cyn bo hir, a
dyna ddiwedd ar y gwersi.
Rwy'n tueddu i gytuno mai ar ôl
ymweliad y Dug Efrog yr enwyd
y rhes yn 'York' ac, wrth gwrs,
roedd 'Victoria' yn enw
cyffredin iawn. Mae yna bump o
strydoedd ym Mangor 'ma yn
dal yr enw. Talu gwrogaeth i'r
frenhiniaeth ac i'w dilynwyd, y
pendefigion, oedd y fashiwn yr
adeg honno, gan y tir-
feddianwyr.

Carthen Pwllheli

Diddorol iawn yw'r sylwadau ar
y rhain. Fe welais i un ohonynt
yng nghartref Miss Hannah
Williams, ger Stryd Fawr
Bangor. Roedd hi wedi ymddeol
o fod yn ddarlithydd yn y Coleg
Normal. Roedd hi'n hannu o
Groeslon. Ar ôl iddi farw, roedd
ei chwaer yng nghyfraith,
hithau wedi bod yn athrawes yn
Nantlle, yn bwriadu mynd yn ôl
i'r de. Tybed a aethpwyd â'r
garthen gyda hi, gan nad oedd
dim perthnasau eraill yn bod.
Roedd hyn tua dechrau'r
wythdegau.

Roedd Mr Brwynog Jones yn
gerddor gwyd, ac yn flaenor yn
y Capel Coch. Byddai yn fy
nygu i ganu er mwyn cystadlu
yn 'Steddfod yr Eglwys. Fe
gollodd ei unig fab yn y rhyfel
yn Norwy.

Diolch am golofnau diddorol
iawn.

Yn gywir
Olwen M. Davies

Cefnogwch ein
Hysbysebwyd

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon

Annwyl Olygydd

*Cynllun Addysg Gymraeg Drafft
- Cyngor Gwynedd*

Carwn dynnu sylw eich
darllenwyr at Gynllun Addysg
Gymraeg diwygiedig sy'n cael ei
baratoi gan y Cyngor.

Cymeradwywyd Cynllun
Addysg Gymraeg presennol y
Cyngor gan Fwrdd yr Iaith
Gymraeg ar y 3ydd o Fawrth,
1999.

Mae cyfnod gweithredu'r
Cynllun presennol yn dod i ben
yn fuan ac mae angen llunio
olynydd i'r Cynllun gwreiddiol.
Mae'r Awdurdod wedi paratoi
drafft o'r Cynllun Addysg
Gymraeg diwygiedig ac yn
ystod y cyfnod rhwng y 5ed o
Ionawr, a'r 29ain Chwefror
2004, byddwn yn ymgynghori
ar gynnwys y cynllun drafft
hwn gydag unigolion, cyrff a
sefydliadau amrywiol yn ogystal
â'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae'r Awdurdod yn awyddus
i lunio Cynllun Addysg
Gymraeg terfynol a fydd yn
darparu'n addas ar gyfer plant,
pobl ifanc ac oedolion y Sir yn
ogystal â'r unigolion, cyrff a
sefydliadau eraill y bydd yr
Awdurdod yn cydweithio â hwy.
Gellir cael copi o'r Cynllun
drafft trwy gysylltu â:

Geraint Owen
Cyfadran Datblygu
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
(Ffôn: 01286 679456)
e-bost: GeraintOwen@
gwynedd.gov.uk

neu gellir archwilio copi o'r
Cynllun yn unrhyw un o
Lyfrgelloedd y Sir yn ystod y
cyfnod ymgynghori.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Dafydd Whittall

Cyfarwyddwr Strategol
(Datblygu)

Martin Llewelyn Williams
Pen-y-Golwg
Deiniolen

Annwyl Eco'r Wyddfa

Byddem yn ddiolchgar pe bai'n
bosibl cynnwys y llythyr isod yn
rhifyn nesaf y papur (heb
unrhyw olygu/gwtogi os
gwelwch yn dda. Diolch.

Annwyl Olygydd,

Anodd iawn yw hi ar brydiau i
deimlo'n hyderus ynglŷn â
dyfodol y Gymraeg fel iaith
wirioneddol FYW. Serch hynny,
dyma lygedyn o obaith: Tra'n
gweithio yn Swydd Derby,
cefais sgwrs ddiddorol gydag

Efrogwr (yn y Gymraeg!) Sais
glân gloyw ydoedd gyda dim
cysylltiadau teuluol Cymreig ac
nid oedd erioed wedi byw yng
Nghymru. Pam felly ei fod wedi
dysgu rhywfaint o'r 'heniaith'?
'Dwi'n caru ieithoedd,' oedd ei
ateb. Ni wnaeth lygru'r
Gymraeg gyda llwyth o ciriau
Saesneg (beth yw'r pwynt pan
fod yna air Cymraeg addas
eisoes yn bodoli?!). Siaradai
Gymraeg (a Saesneg!) glân a
chyfoethog (dim 'Wenglish' o
gwbl!). Nid yw fy Nghymraeg
llafar i'n berffaith o gwbl, ond
'rwyf yn fwy ymwybodol o
gyfoeth aruthrol y Gymraeg ers
i mi gyfarfod â'r Efrogiaid yma -
person hynod o ddeallus,
cyfeillgar, positif, di-duedd ac
eangfrydig.

Yn gywir
M Ll Williams

7 Stryd y Wyddfa
PENYGGROES
Gwynedd LL54 6NG

Annwyl Olygydd

Môr-ladron Cymreig

Rwy'n sygrifennu llyfr am fôr-
ladron Cymreig.

Tybed a oes gan unrhyw un
o'ch darllenwyr hanesion am
fôr-ladron o'ch ardal chwi? Oes
yna straeon am rai gafodd eu
cipio gan fôr-ladron? Oes yna
ogofâu môr-ladron acw? Neu
drysor a guddiwyd gan fôr-
ladron? Oes yna feddau môr-
ladron - neu rai laddwyd gan
fôr-ladron - yn y fynwent leol?

Oes yna straeon am bobl leol
- yn arbennig sgwieraidd - yn
ymhel â môr-ladron? Oes yna
sôn am dwneli'n rhedeg o'r
traeth i blastai lleol?

Byddwn yn ddiolchgar am
unrhyw wybodaeth sydd
gennych.

Yn gywir iawn
Dafydd Meirion

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

BLWYDDYN NEWYDD DDA O SELAND NEWYDD

ROEDD hi'n un o'r boreau 'na, pan mae hi mor boeth nad ydach chi eisiau gorweddian yn y gwely, er ei bod hi'n wyliau. Pan mae'r adar i'w clywed yn canu'n uwch nag arfer, a phan mae'r haul cryf sy'n llifo trwy'r llenni yn eich denu i ddod allan i chwarae. Felly roedd hi i ni ar ddydd Calan 2004 yn Ohope, Seland Newydd!

Dyma'r ail 'Dolig i mi a'm teulu dreulio yn yr haul. Mae Carl, fy mhartner bywyd, Efa ein merch, ac Iago ein mab yn gwneud y gorau o'r 'Dolig hafaidd, gan mae'n debyg y byddwm yn ôl yn oerni gogledd Cymru y 'Dolig nesa'.

Yn swyddogol, mae'r haf yn cychwyn ar Ragfyr y cyntaf yma, a'r flwyddyn yma fe gawsom ni brofiad bythgofiadwy ar y diwrnod hwnnw. Roeddem yn ffodus i fynd o ogledd ynys y Gogledd i lawr i'r brifddinas, Wellington, sydd yn ne'r ynys Ogleddol i fod yn un o'r dorf i groesawu criw 'Lord of the Rings' i *bremier* y ffilm 'Return of the King'. Arhosom yn amyneddgar wrth y carped coch am bum awr cyn cael cip ar yr enwogion: Liv Tyler, Viggo Mortesen, Peter Jackson ac Elijah Wood i enwi ond ychydig. Ond pigion y dydd oedd pan arwyddodd yr actor ohn Rhys Davies (sy'n actio'r corrach, Gimli) ein Draig Goch, 'To my beloved countrymen, best wishes John Rhys-Davies', a phan gafodd Efa gwtsh gan y pisyn, Orlando Bloom, (un fam genfigenus!)

Ond yn ogystal â hyn, roeddem hyd yn oed yn fwy ffodus o Gael ein anti Menna o Canada hefo ni i rannu'r profiad. Daeth Menna (chwaer Mam) i ymweld â ni ar ei ffordd yn ôl o Korea, lle'r oedd hi wedi bod yn cynnal gweithdai ar siarad cyhoeddus. Ie, y ffordd hir adref i Canada gymerodd hi, ond roeddem wrth ein bodd ei bod hi wedi galw draw, cyn iddi fynd yn ôl i'r eira!

Mae'r Nadolig bob tro yn amser prysur yn ein tŷ ni gan fod Efa yn dathlu ei phen-blwydd ar noswyl Nadolig. Eleni fe gafodd hi rai o'i ffrindiau drosodd y penwythnos cyn ei phen-blwydd, a

gan Gwenllian Parry a'r teulu (o Benisarwaun gynt)



dathlasant wrth syrffio yn y môr, sydd gyferbyn â'r tŷ, a gwyllo fideos drwy'r nos!

Ar gyfer y diwrnod ei hun roedd gennym syrpreis iddi. Roeddem wedi trefnu i fynd â hi i nofio efo'r dolffiniaid allan yn y Cefnfor Tawel. Wedi cadw'r gyfrinach am wythnosau, roedd y tywydd yn rhy arw i fynd allan i'r môr mawr ar 24 Rhagfyr ond, ar 28 Rhagfyr, aethom allan am brofiad arbennig. Gwelsom ddegau o ddolffiniaid 'cyffredin' yn neidio drwy'r tonnau. Rhai mawr, rhai bach, babanod, dolffiniaid mawr gwryw a rhai llai, benywaidd. Roedd Efa a Carl yn ddigon dewr i neidio allan o'r cwch i nofio yng nghanol y cefnfor, ond neidio i mewn a gafael yn ochr y cwch wnes i ac Iago. Dipyn callach os ydach chi'n gofyn wrtha i, gan fod siarcod yn byw yn y dyfroedd yma! Wrth edrych oddi tanom i berfeddion y môr gallem weld y dolffiniaid yn gwibio drwy'r dŵr, yn ogystal â'u clywed yn canu'n swynol efo'i gilydd!

A barn Efa am y profiad? Wel, roedd hi'n meddwl fod nofio efo'r dolffiniaid yn curo cael cwtsh gan Orlando Bloom - o drwch blewyn!

Does 'na ddim cymaint o ffws yma am siopa Nadolig ag sydd yna adra. Dydach chi ddim yn teimlo fel llusgo'ch hunan drwy'r siopau pan mae'r tymheredd dros 20 gradd selsiws, a phan allwch chi fod ar y traeth, neu yn mwynhau y wlad. Ond wedi dweud hyn, am wythnos cyn y 'Dolig roedd Ahakatane (y dref fechan sydd 10 munud o'r tŷ ni) yn fwrlwm o bobol.

Cawsom ddiwrnod 'Dolig digon distaw. Aeth Carl a'r plantos i syrffio tra fy mod i'n rhoi fy nhraed i fyny ar ôl cinio - tric wnes i ddysgu gan Taid Cricieth. Alla i ddim dweud fy mod i wedi cael gafael ar y syrffio 'ma, ond mi rydw i'n mwynhau corff-fyrddio. I wneud hyn mae angen bwrdd sydd tua medr a hanner o hyd, a mynd at eich canol yn y môr i ddisgwyl am y don sydd am eich gwthio ar garlam tuag at y traeth. Yn

hytrach na sefyll ar y bwrdd mae'n rhaid gorwedd arno. Does dim fel gwibio drwy'r dŵr gyda'ch cyfeillion, y ceffylau gwyn, i godi'r ysbryd. Yn wir mae ccorff-fyrddio a syrffio yn cael eu hannog i bobol ifanc yr ardal fel rhai o'r gweithgareddau i hybu 'natural high', a'u cymell i beidio â defnyddio alcohol a chyffuriau.

Ar y diwrnod ar ôl y 'Dolig, roedd Ohope, y pentref glan môr yr ydym yn byw ynddo, yn fwrlwm o bobol. Twristiaid wedi cyrraedd o'r trefi mawr am eu gwyliau haf. Ac ers hynny mae'r traeth 11 cilometr, wedi bod yn brysur hefo pobol yn torheulo, syrffio, corff-fyrddio, pysgota, hwylio tywod, chwarae criced ac ati. Mae'n fy atgoffa fwy o Forfa Bychan yn llawn Brummies, na'r traeth distaw yr ydan ni wedi arfer iddo fod.

Mae pobol yn heidio i Ohope am noswyl Calan, fel maent i drefi a phentrefi glan y môr eraill yn Seland Newydd. Mae'n dipyn o draddodiad croesawu'r flwyddyn newydd i mewn ar y traeth. Roedd 'na nifer fawr o bartïon y tu allan i'r tai, a phawb yn gyfeillgar yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb oedd yn pasio. Ac wrth i'r cloc daro deuddeg o'r gloch roedd 'na lu o dân gwyllt yn goleuo'r awyr glir.

Oedd, roedd hi'n Nadolig ac yn Flwyddyn Newydd dipyn gwahanol i'r rhai yr ydym wedi arfer â hwy yng Nghymru fach. Ond mae'n rhyfeddol sut mae'r plant yn cofio'r hen draddodiadau. 'Clenig a chlenig a Blwyddyn Newydd Dda...' oedd hi y peth cyntaf ar ôl i'r haul a'r gwres ein denu o'n gw'lau!

Dymunwn 'Lond tŷ o arian a digon o fwyd da', i bawb adra hefyd.

Blwyddyn Newydd Dda.



Gwenllian efo Hywel Gwynfryn, pan ddaeth o draw i'w ffilmio yn Seland Newydd llynedd.

Diwrnod Agored

30 - 31 Ionawr 2004

Yn sefyll mewn 8 erw o erddi a parcdir yng Nghaeathro, mae'r Plasty trawiadol yma yn werth cael golwg arno, yn cynnig:

- *Priodasau * Bedydd * Cymhadleddau
- * Pwyllogorau * Achylsuron Arbennig
- * Dathliadau * Bythynod Gwyliau
- * Gwely a Brecwast
- * LLeoliad gwych ar gyfer ffilmio
- * Te Angladdau

Dyma'ch cyfle i ymweld â Plasty urddasol llawn hanes, sy'n dyddio'n ôl i 1714

Penrhos, Caeathro, Caernarfon, LL55 2TA
01286 676667



Penrhos

30 Ionawr

Agor i Fusnesau
12:30 - 5:30

31 Ionawr

10:30 - 4:30
Ar Agor i'r cyhoedd

Lluniaueth ysgrifn ar gael

Edrychiwn ymlaen
i'ch croesawu

O SIAMBAR SELWYN

Anrheg bersonol gan yr awdur i mi oedd ei gyfrol *Crych Dros Dro*, ac yn naturiol mi ges i bleser arbennig yng nghwmni fy hen gyfaill, Gwilym Owen. O'i darllen, fe ddaeth 'na sawl atgof i mi o'r achlysuron y ces i'r fraint o gyd-weithio hefo Gwilym yn y 'Steddfoda, Y Sioe Frenhinol a Chynadlaedda' Plaid Cymru, dros y blynyddoedd â fu.

Fel arfer yr un criw ohonom fyddai'n mynd ar y bererindod flynyddol i'r Brifwyl, gyda'r hen bererin, y diweddar Alun Pierce o Dremadog, yn ein cadw ni'n effro hefo 'Ogla drwg uffernol' ar 'Drowsus Bach ei Nain' tan oriau mân y bore. Cofio aros mewn gwesty yn Llangadog yn ystod Prifwyl Rhydaman 1970. Gwilym a minnau newydd gyrraedd ein ystafell. Cnoc ar y drws. Alun oedd yno, - 'ma hi'n O.K. hogia, mi gawn ni aros yn y bar tan oria' mân y bore - 'dwi wedi cal gair hefo Gibbs.' Gibbs? Pwy goblyn oedd Gibbs? Yn ddiweddararch mynd i lawr i'r bar a chanfod mai Gibbs oedd y 'barman' a 'doedd ganddo yr un dant yn ei ben. Ond mi fuo Gibbs yn 'farman' ardderchog i ni drwy gydol yr wythnos - diolch i Alun.

Mi fyddai'r hen gyfaill John Thomas, Y *Cloriannydd*, Llangefni, yn aros gyda ni. Cofio Gwilym a finna yn ei ddilyn ar draws maes un o Eisteddfodau'r Urdd, pan oedd John ar frys i gyrraedd un o'r toiledau. Yr hen doiledau hen ffasiwn - un rhes, oedd rhain, ond fe lwyddodd John Thomas i stwffio i un bwlch gwag i gael rhyddhad. Ninnau yn gweiddi yn y drws, - 'Oes 'na rhywun wedi gweld John Thomas o Langejni yma, - mae'n bwysig?' John yn cynhyrfu'n lân gan droi i'r chwith a'r dde ac i bob cyfeiriad arall, gan ateb - 'Dyma fi,' nes 'roedd y ddau gyfaill, (os cyfeillion hefyd) o bobtu iddo yn teimlo rhyw damprwydd annisgwyl yn rhedeg i'w sgidiau.

Roeddwn i wrth fy modd yn clywed Gwilym yn dadla, ac mi roedd yntau wrth ei fodd yn cael bwrw'i fol mewn dadl. Yn wir byddai Eifion Lloyd Jones a minnau'n gyrru'r cwch i'r dŵr yn fwriadol ambell dro, er mwyn cael y pleser o glywed Gwilym yn 'reidio'i geffyl'. Mae Gwilym yn datgan yn ei hunangofiant y byddai y diweddar I. B. Griffith wedi gwneud Aelod Seneddol gwyh. Dwi o'r farn y byddai Gwilym wedi gallu llenwi'r un swydd yn anrhydeddus hefyd. Yn y maes gwleidyddol mae ei ddadleuon o'n fwy tanbaid. Cofio seiat gyda'r nos yn un o Gynadleddau Plaid Cymru yn Aberystwyth, a phwy oedd gyda ni rownd y bwrdd ond Winifred Ewing, yr Aelod Seneddol dros Blaid Genedlaethol yr Alban. Oedd roedd y sgwrs yn felys, ond buan iawn y trodd yn ddadl, ac yn ddadl boeth rhwng Gwilym a'r Foneddiges o'r Alban. Tua thri o'r gloch y bore fe gododd Mrs Ewing, gan bwyntio'n bersonol at yr hanner dwsin ohonom a datgan, - 'I like you - I like you,' ac yna, gyda than yn ei llygaid a chan sodro'i bys i lygaid Gwilym, fe daranodd - 'I hate you,' ac diflanodd mewn andros o dymer. Buddugoliaeth arall i Gwilym yn y maes dadlcul.

Byddai rhaglen Yr Wythnos ymlaen ar nos Lun ac fel arfer, mi fyddai Gwilym wedi penderfynu pa bwnc y byddai'n ei drafod mewn da bryd. Ond ambell dro, oherwydd i ryw newyddion syfrdanol dorri allan, rhaid fyddai newid y trefniadau ar fyr rybudd. Yn aml iawn byddai hyn yn digwydd ddiwedd yr wythnos, ac roedd hyn yn golygu fy mod i'n rhedeg a rhuthro i geisio perswadio rhai i fynd i Gaerdydd ar fyr rybudd. Trefnu, ambell dro, i fynd a rhai yn ystod gwyliau ysgol i Gaerdydd yn y car, neu i Orsaf Bangor i ddal y trênn cynnar ar fore Llun

i'r brifddinas. Problem fwy, ar yr achlysuron hyn, oedd bod amryw heb ffôn a rhaid oedd galw yn eu cartrefi i geisio'u perswadio.

Dwi'n cofio Gwilym yn cael syniad gwreiddiol un tro, sef anfon Bill Parry i wneud adroddiad o'r Sioe Gychod yn Llundain, a minnau'n mynd a'r anturiaethwr enwog i Orsaf Bangor yn gynnar ar y bore Llun, gan fawr hyderu y byddai'n cyrraedd Llundain yn ddiogel, gan gofio i'r daith i Awstralia orffen yn froc ar draeth y Belan. Wrth lwc, fe gyrhaeddodd Capten Parry y Sioe Gychod a'i draed yn sych.

Dwi'n cofio dreifio'n wyllt wirion i fynd a ffilmiau i Gaerdydd ar gyfer rhaglen Y Dydd. Cychwyn yn gynnar yn y prynhawn ar ôl gorffen ffilmio, gyda 'dedlein' i gyrraedd Stiwdio Pontcanna ychydig wedi pump. Roedd hyn yn y dyddiau cyn bod sôn am ffyrdd osgoi Dolgellau, Llanidloes, Aberhonddu a Merthyr. Cael a chael fu hi ambell dro a, diolch i'r drefn, doedd Prif Gwnstabiliaid ddim wedi cael tegan o gamerâu y dyddiau hynny. Roedd rhai o'r ffilmiau hynny yn ymwneud â Bro'r Eco megis 'Ffrwydriad Clwb Penisarwaun a Llythyren 'D' - Eurig Wyn.'

Fe gollodd Gwilym un ddadl yn un o Seidiau Sadyrnol y Gors Bach. Roedd Eifion Lloyd Jones (â oedd yn byw yn Nhregarth ar y pryd), a minnau, o'r farn y dylid cael telediad o'r Wyl Gerdd Dant ar slot Yr Wythnos. Dadl Gwilym

oedd, nad eitem o newyddion oedd yr Wyl. Ninnau yr un mor bendant fod yr Wyl yn achlysur unigryw i ni fel cenedl. Fe ildiodd, ac fe recordiwyd yr Wyl Gerdd Dant ar y Sadwrn yn Llansanan, ac fe'i dangoswyd ar slot Yr Wythnos ar y nos Lun dilynol.

Do, fe ddaeth sawl atgof yn ôl. Andre Previn yn gwneud ymddangosiad annisgwyl ym Mhrifwyl Bro Dwyfor, - drwy garedigrwydd Gwyn Erfyl. Yn y 'Steddfod honno y daethom i adnabod y brawd a gafodd yr enw barddol 'Cyfarwydd Caer' gennym, am y ffaith na freintwyd mohono â'r ddawn i ddeud stori.

Dwi'n sicr bod *Crych Dros Dro* wedi dwyn sawl atgof yn ôl i rai fel Gareth Owen, Eifion ac Alun Rhys. Mi fedra i ddychmygu tri arall i 'Fyny' 'na yn rhywle yn cyfarfod i drafod y gyfrol ac yn ail-fyw ambell ddigwyddiad. Alun Pierce a'i frawd Glyn a John Thomas, Y *Cloriannydd*. Glyn yn tynnu ar Alun - 'dydio'n sôn dim am y Phillips 'na oedd hefo chdi yn Llangadog,' ac Alun yn ateb, - 'Dew, dyn gwybodus - B.Sc, gwbod bob dim am gachu ieir, a gyda llaw PHYLLIPS oedd enw'r gŵr bonheddig - nid Phillips.'

A John Thomas yn amenio'r cyfan yn y gornel, - 'Dew mi gawson ni sbort yn do hogia, - dyddia difyr, gwerth wheel.'

A gwell i minnau ddeud Amen am y tro rhag ofn i mi ddadlennu ambell gyfrinach.

Ia dyddia difyr, gwerth wheel, - Diolch Gwilym.

R. L. DAVIES

Coed Belyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tunnell diggers bychain ac excavators 360° newyddia llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs! (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH Dymuna Ellen, Gwynfor, Meleri a lolo, Drws-y-Coed, Bethel, ddiolch yn gynnes iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl ac arbennig iawn, sef Mrs. Margaret Jones, Talmignedd, Nantlle.

Diolch am y rhoddion hael er cof amdani tuag at Gronfa'r Gweinyddesau lleol a Chapel Drws-y-Coed.

MERCHED Y WAWR.

Rhagfyr. Cynhaliwyd Cinio Nadolig y gangen yn Nhy'n Llan, Llandwrog. Estynnodd yr Is-lywydd, Nan Rowlands, gyfarchion i gyn-aelod o'r gangen, Mrs A.G. Williams, sydd newydd ymgartrefu yng nghartref St. Teilo. Cydymdeimlodd â theulu y diweddar Mrs Mary Griffiths. Tre Gof gynt, un arall o'r cyn-aelodau. Anfonwyd cofion at Oscar, gŵr Mary Evans, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Llongyfarchwyd Gwenan Elis ar ei dyweddiad. Diolchwyd i Mr Richard Lloyd Jones am baratoi'r cwis ar gyfer y noson. Enillwyd y raffl gan Eirlys Sharpe, Gwyneth Price, Deilwen Hughes, Beti Owen, Edwina Morris a Siân Davies.

Ionawr. Dymunodd y Llywydd, Anita Owen, Flwyddyn Newydd Dda i'r holl aelodau a chydymdeimlodd ag Ellen Ellis, sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Estynnodd groeso cynnes i'r gŵr gwadd, Dr Berwyn Owen, sy'n gweithio fel fferylllydd yn Ysbyty Glan Clwyd ac i Awdurdod Iechyd Gwynedd. Cafwyd noson hwyliog yn ei gwmni wrth iddo sôn am wahanol feddyginiaethau a'r dystiolaeth sydd ar gael am eu heffeithlonrwydd. Diolchwyd iddo gan Mair Read. Y gwestwagedd oedd Gwyneth, Ceinwen a Nansi. Enillydd y raffl oedd Rita. Llauer o ddiolch i

Glenys Griffith am baratoi cacen i'r gŵr gwadd.

CAPEL Y CYSEGR. Bu'r cyfnod yn arwain i fyny at y Nadolig yn un hapus a physur. Cymerwyd rhan gan tua hanner cant o blant yr Ysgol Sul mewn Cyflwyniad arbennig wedi ei baratoi gan y Gweinidog, y Parchedig Dafydd Hughes. Roedd pob dosbarth yn gyfrifol am gyflwyno rhannau o Stori'r Geni, a bu i'r plant lleiaf orymdeithio o amgylch y Capel yn portreadu Mair, Joseff, Angylion, Bugeiliaid a'r Doethion. Roedd cyfle i'r gynulleidfa ymuno mewn nifer o garolau yn ystod y Cyflwyniad, a'r neges oedd fod aelodau a chyfeillion Y Cysegr yn dal i gofio, credu a dathlu yr hyn a ddigwyddodd ym Methlehem 2003 o flynyddoedd yn ôl. Bu i Enfys Roberts a Llio Hywel ganu addasiad o gân Dafydd Iwan 'Ry'n ni yma o Hyd' gyda'r plant a'r gynulleidfa yn ymuno yn y cytgan. I gloi'r Cyflwyniad aeth pob plentyn i'r sêd fawr a chanu 'Dewch i Ddathlu'.

Y Sul canlynol, mwynhawyd te parti blasus, wedi ei baratoi gan yr Athrawon, i holl blant yr Ysgol Sul, a braf oedd cael ymweliad gan Siôn Corn.

Daeth cynulleidfa deilwng i Wasanaeth Cymun bore'r Nadolig eto eleni, o dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Dafydd Hughes, a chymerwyd rhan gan aelodau Capeli'r ardal. Groesawyd pawb i'r Gwasanaeth gan y Gweinidog, a diolchodd hefyd i bob un am eu parodrwydd i gymryd rhan. Ieuan Williams, yn cynrychioli Capel Bethel, lediodd y garol gyntaf, ac yna cafwyd darlenniad gan Geraint Elis a gair o weddi gan Goronwy Jones, y ddau o Capel Y Cysegr. Ar ran Capel Saron lediodd Delyth Williams garol arall, a chymerwyd rhan ymhellach gan dair o ferched ifainc Y Cysegr, sef Ffion Meleri Owen, Lois Wyn Hughes a Ffion Williams. Fel arweiniad at fwrdd y Cymun, chwaraeodd Glenys

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

☎ 01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

SWEDD
ELLEN A'R LOTER
GWEINIDOG
CYSEGR
NATIONAL LOTTERY
CHAMPION BOARD
BETTER

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

☎ FFONIWCH ☎

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

Griffiths, yr organydd, y 'Pastoral' Symphony gan Beethoven, ac yna rhannwyd yr elfennau gan Richard Lloyd Jones a Glyn Roberts.

Eleni penderfynwyd anfon casgliad Gwasanaeth y Plant a chasgliad bore'r Nadolig, sef cyfanswm o £173.80, tuag at Wasanaeth yr Ambiwylans Awyr, Gogledd Cymru.

CLWB BRO BETHEL. Cafwyd prynhawn diddorol yn Festri Cysegr, dydd Mawrth, 6 Ionawr. Croesawyd y gŵr gwadd, Mr Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, gan y Llywydd, y Parch Gwynfor Williams. Siaradodd Mr Hughes am ei hoff lyfrau a llenorion enwog Cymru a darllenodd rannau o rai o'r llyfrau gan roi gwledd i'r aelodau.

Rhoddwyd y diolch gan Mr Selwyn Griffith.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 3 Chwefror yn Festri Bethel, gyda Mr Emyr Price, Caernarfon.

ADRAN BENTREF YR URDD. Bydd Eisteddfod Cylch yr Urdd yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 28 Chwefror, yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Cynhelir yr Eisteddfod Cylch Symudol (disgo a dawnio gwerin) ar nos Iau, 4 Mawrth, yn Ysgol Syr

Hugh Owen, Caernarfon. Mae'n bwysig i bawb sydd am gystadlu yn unrhyw un o'r ddwy Eisteddfod roi eu henwau i Manon Griffiths, 9 Stad Eryri erbyn 6 Chwefror.

CLWB 100 Y CLWB PÊL-DROED. Gwobrau'r Nadolig oedd 1. £100: Alwena Williams, Llanrug; 2. £50: Gareth Jones; 3. £25: Dewi Hughes a Gwynfor Morris; 5. £20 iddynt oll: B. J. Owen, Felinheli; Gwenda Jones, Llanrug; Harold Owen (Harri Bach); Steven Closs Williams; Michael Green; Carolynne Johnson; Wena Williams; Huw Gwyn Jones; Mark Herbert a Derfel Williams.

I ymuno, neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl, Bethel. (Ffôn: 01248 671 469).

CLWB 200 Y NEUADD GOFFA. Enillwyr Tachwedd oedd: £50: (113) Miss A. Humphreys, Ty'n Rhos; £25: (43) Mrs M. Heritage, 6 Bro Eglwys, £10: (85) Mrs Betty Owen, 2 Tan y Cae.

Enillwyr Rhagfyr oedd: £50: (77) Mr a Mrs P.C. Hughes, Pen y Buarth; £25: (89) Miss Menna Williams, 24 Edward Street, Caernarfon; £10: (114) Mrs Eleri Warrington, Wern Bach.

DIOLCH. Dymuna Jim a Wendy Ostler ddiolch o galon i bawb yn y pentref am eu caredigrwydd a'u cyfeillgarwch i Sasha yn ystod ei hymwelid â Bethel o Belarus. Bu Sasha, sy'n 13 oed, yn aros hefo Jim a Wendy am fis, ac yn ystod ei chyfnod yma gwnaeth lawer o ffrindiau newydd, ym Methel ac yn Ysgol Brynrefail.

Gasglwyd £200 yn lleol tuag at y cyfraniad o £500 i *Chernobyl Children's Lifeline*, tuag at y gost o gludo Sasha o Belarus i Gymru.

Cefnogwch ein
Hysbysebwyd



Gwasanaeth Nadolig y Plant, Capel Bethel, 21 Rhagfyr 2003.

CHWILOTA

Sawl Carthen Pwllheli sydd ym Mro'r 'Eco'?



MAE'R YMATEB i'r sylwadau a roddwyd dros y misoedd diwethaf i Garthen Pwllheli yn parhau. Rhoddwyd sylw i'r garthen gan D. G. Lloyd Hughes mewn erthygl swmpus yn *Y Casglwr* (Haf 2002). Mae'r garthen i'w gweld yn Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân yn Felindre, Sir Gaerfyrddin. Yno mae'n cael ei hadnabod fel 'Carthen Pwllheli'. Mae iddi ddau liw – coch a hufen – er i mi dderbyn adroddiad dros y mis diwethaf am garthen o liw gwyrdd a hufen, ond mwy am honno yn ddiweddarach.

Yn y llyfr *The Textiles of Wales* gan Ann Sutton (1987), mae'r garthen yn cael ei disgrifio ganddi fel 'the commemorative quilt', a honna mai John Roberts, gwehydd o Gaernarfon, a'i cynlluniodd. Cyflwynwyd y garthen i Dywysog Cymru ar achlysur ei ymweliad â Chaernarfon yn 1876 i agor y Gwaith Dŵr. Ond profwyd gan D. G. Lloyd Hughes na allai hynny fod yn gywir, oherwydd i Waith Dŵr Caernarfon gael ei agor yn 1868, ac nad oedd Coleg Aberystwyth (a ddarlunir ar y garthen) yn bodoli bryd hynny. O leiaf, gellir dyddio gwncuthuriad y garthen wreiddiol i tua 1872, neu ychydig yn ddiweddarach.

Mae'n bosibl mai â gwŷdd llaw y gwnaethpwyd y garthen wriddiol, ac amcangyfrifir i hynny gymryd wythnos o amser.

Mae Ann Sutton yn awgrymu y byddai cynhyrchu'r garthen y tu hwnt i allu gwŷdd o un ar bymtheg o bleidiau (*sixteen-shaft handloom*), ac mai'r unig ddull o gynhyrchu'r garthen yn fasnachol oedd drwy ddefnyddio Gwŷdd Jacquard. Roedd yr wŷdd arbennig honno yn seiliedig ar gardiau tyllod – cannoedd ohonynt – ar gyfer trefnu lleoliad yr edafedd. Yn wir, gellir dadlau mai ar sustem debyg y sylfaenwyd y cyfrifiaduron cynnar, ond stori arall yw honno.

Roedd gwyddion Jacquard yn

cael eu defnyddio yng Nghymru, ond mae'n ymddangos na fuont yn boblogaidd iawn. Mae'n sicr fod gwŷdd Jacquard yn cael ei defnyddio yng Nghaernarfon.

Mac John Roberts, y gwehydd a fu'n gyfrifol am gynllunio 'Carthen Pwllheli', mewn nodiadau bywgraffyddol a fenthyciwyd i mi gan ei ddisgynyddion, yn sôn am ei dad, Robert Roberts. Roedd Robert Roberts wedi ei eni yn Llanbeblig, yn fab i Thomas Roberts o'r Ro Wen yn nyffryn Conwy a Margaret ei wraig. Yn ôl traddodiad teuluol, un o deulu'r Llwyncoed, Cwm y Glo oedd Margaret, ond ni allaf gadarnhau hynny ar hyn o bryd. Gwehydd oedd Robert Roberts, fel ei dad, a sefydlodd fusnes llwyddiannus iawn yng Nghaernarfon, gan ddefnyddio stêm yn hytrach na phŵer dŵr. Roedd ganddo ffatri yn Stryd y Llyn, a clwid yn ddiweddarach yn Menai Factory. Credaf ei bod wedi ei lleoli ble mae siop Boots (hen garej y Central) heddiw. Enillodd wobrau am ddilladau yng ngwahanol eisteddfodau pwysicaf ei gyfnod, ac enillodd hefyd mewn cystadleuaeth yn Arddangosfa Fawr y Palas Grisial yn Llundain yn 1851. Daeth hyn ag ef i gryn amlygrwydd, a ffynnodd ei fusnes. Ddauai archebion am gartheni a dilladau iddo oddi wrth aelodau o'r teulu brenhinol a byddigions

Caernarfon. Mae'n amlwg ei fod yn defnyddio gwŷdd Jacquard oherwydd dywed ei fab: 'Fy nhad oedd y cyntaf i introducio y Jack Guard machine i Gymru, er i un o Dregarth geisio dalu y werin anwybodus, yn eu plith golygydd pwysig y Pwllsh Cymraeg – mai ef ydoedd.'

Ganwyd Jane Hughes, gwraig Robert Roberts, yn Llanberis, ei thad, John Hughes, yn fwynwr copr a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yng ngweithfeydd y Gogarth, ger Llandudno. Bu Jane farw flwyddyn wedi geni John Arvon, ac fe'i magwyd gyda'i nain a'i daid (o du ei dad) yng Nghaernarfon. Yn ôl ei addefiad ei hun, roedd â'i fryd ar fynd i'r môr, ond ni fynnai ei dad hynny. Cafodd gynnig dilyn hyfforddiant i'w gymhwyso'i hun yn feddyg, yn gyfreithiwr neu'n beiriannydd, ond ni fynnai John hynny chwaith. Yn hytrach, penderfynodd ddilyn yr un alwedigaeth a'i dad.

Bu Robert Roberts farw yn 1870, a bu'r mab, John Arvon Roberts yn cario'r busnes ymlaen 'hyd yr 21ain o Fedi 1880 pryd y gwerthais fy hawl, a chychwyn gyda'm teulu am Lerpwl.' Dyma'r cyfnod felly pryd y cynlluniwyd 'Carthen Pwllheli'. A dyma'r cyfnod hefyd pryd yr ehangodd John Roberts ei fusnes, gan fuddsoddi mewn peiriannau newydd. Yn anffodus, daeth hefyd yn gyfnod o ddirwasgiad, fel nad oedd ei gynnyrch yn gwerthu cystal. Roedd eisoes wedi prynu peiriant newydd i'w ffatri yng Nghaernarfon, ond aeth pris glo stêm yn ddrud – dros bunt y dunnell. Bu'n rhaid iddo 'roi y Cap Considro am fy mhen' oherwydd gwelai ei holl elw 'yn myned trwy y corn simna.' Penderfynodd arall-gyfeirio, a gwnaeth gais i Assheton Smith am dir ger Cae Dôl Eiddyn, Pontrug i adeiladu ffatri. Ond siom oedd yn ei wynebu unwaith eto. 'Wedi mynd i gost i adeiladu Factory ac annedd dy yn y fan honno, a chario'r gwaith ymlaen am rhyw dair blynedd, daeth panic yn y gweithfeydd llechi, fel nad oedd y chwarelwyr braidd yn gallu ennill digon i gadw corph ac enaid ynghyd heb son am gael dim newydd. Ac arnynt hwy gan mwyaf fel dosbarth yr ymddibynnwn am werthu y nwyddau.' Gwaethygodd ei sefyllfa. Dim ond pymtheg swllt yr wythnos a dderbynai o werthiant ei nwyddau, a hynny at gadw'r teulu, 'y ground rents, llogau y club trethi a dyledion masnach. Daeth mor eglur o'r diwedd nad oedd gennyf ond un llochybr i'w gymeryd, sef ymadael. Cymerodd Club Adeiladu Cwm y Glo feddiant o'r Factory a'r ty, ynghyd a thros werth 300 o beiriannau i ba rai nad oedd ganddynt un hawl.'

Yr hyn sy'n aneglur yw ym mha ffatri y gwnaethpwyd y

garthen wreiddiol – Menai Factory, Stryd y Llyn, Caernarfon neu Ffatri Cae Dôl Eiddyn, Pontrug? Roedd John Roberts a'i deulu yn gadael am Lerpwl ddiwedd Medi 1880, ac yn ddiweddarach yn mudo i'r America. Os gwerthodd ei hawl i'r ffatri yn y flwyddyn honno, mae'n debyg mai dyna pryd y daeth y patrwm i feddiant Ffatri Wlân Pwllheli, ond yn ôl D.G. Lloyd Hughes, ni chafodd Ffatri Pwllheli hawl freiniol ar y patrwm hyd Chwefror 1895. Beth ddigwyddodd yn ystod y pymtheng mlynedd 'coll' felly?

Yn ystod y ganrif ddiwethaf, daeth y patrwm i feddiant Ffatri Wlân Trefriw, ac fe'i cynhyrchwyd mewn amrywiaeth o liwiau ganddynt. Cynhyrchwyd y garthen (Cwilt Caernarfon ac Aberystwyth yn ôl enw Trefriw arni) am y tro olaf ar gyfer Arwisgo'r Tywysog Charles yn 1969. Trosglwyddwyd y cardiau i Felin Wlân Penmachno, ac y mae tua'u hanner bellach ym meddiant Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân yn y Felindre.

Dyna'n fras rywfaint o gefndir y garthen sydd wedi ennyn cymaint o ddiddordeb ac ymateb yn nhudalennau'r 'Eco' dros y misoedd diwethaf. Ond beth am y cartheni sydd ar gadw yng nghartrefi'r fro?

A beth am yr honiad a wnaethpwyd y mis diwethaf mai dim ond wyth o gartheni gwreiddiol sydd mewn bodolaeth? Yn ôl D.G. Lloyd Hughes, mae un yn Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân, dwy yn Llŷn, un ym Mangor ac un yn Nyfnaint. Cefais innau gofnod o un ym Mhenfro, un yng Nghaernarfon, un ym Mrynrefail, tair ym Môn ac un yng Nghaerdydd (ond yn wreiddiol o Ddeiniolen). Dyna'r cyfrif fis diwethaf. Bellach, daeth mwy o alwadau ffôn i ychwanegu at y cyfrif. Mae un arall yn Neiniolen, un yng Nghlwt y Bont, un yn Llanberis, un yn Llanrug ac un ym Mhenisarwaun. Daeth adroddiad hefyd am un oedd yn arfer hongian ar wal yn Waterloo House, Caernarfon – un werdd yn hytrach na choch. Mae pawb sydd wedi cysylltu â mi yn honni mai carthen oedd yn ciddo i'w neiniau a'u teidiau yw'r rhai sydd yn eu meddiant, ac felly'n debygol o fod yn gartheni a gynhyrchwyd ym Mhwllheli neu yng Nghaernarfon/Pontrug. Mae'n ymddangos fod yr un werdd yn perthyn i gyfnod diweddarach Melin Wlân Trefriw. Dyna felly (heb gyfrif yr un werdd) ddwy ar bymtheg o gartheni. Ond nid oes sicrwydd pendant i ba gyfnod y maent yn perthyn, ac fe fyddai angen arbenigwr i ddatrys eu tarddiad. Ond os gwyddoch chwi am fwy...

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

'Athraw o nôd a thirion wr'

Mae'n amlwg fod gwyliau'r Nadolig wedi bod yn dymor cynhyrchiol i chwilotwyr y fro. Parhau i ddod i law mae'r wybodaeth am Beuno Jones, Prifathro Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun.

Mae Ieuan Williams o Fethel yn sgwennu am yr eilwaith ynglŷn â phriod John Beuno Jones. Mary Williams oedd ei henw morwynol, a phriodwyd hi o'i chartref, Rhydu, Llanddeiniolen. Dyddiad y briodas oedd 4ydd o Ragfyr 1885, gyda'r Parchedigion W. E. Williams, Pentir ac R. Pryse Ellis, Y Glasgoed, yn gweinyddu. Athro yn Ysgol Rhiwlas oedd Beuno Jones ar y pryd. Mae'n bosibl mai merch Dafydd Williams y Rhydu oedd Mary. Roedd Dafydd Williams yn flaenllaw yn hanes sefydlu Capel y Glasgoed ym 1861.

Daeth yr ail ymateb oddi wrth aelod o deulu Beuno Jones. Mae R. ap Wyn Williams yn gyn athro yn Ysgolion Brynrefail a Syr Hugh Owen, ac yn fab i'r diweddar Barch Wyn Williams, a enwir yn yr adroddiad am gynhebrwng Beuno Jones. Mae'n enwi rhieni a thair chwaer Beuno Jones (nas henwyd yn yr adroddiad am y cynhebrwng). Plant oeddynt i William Jones ac Elin, Penbryn, Rhostryfan. Ganwyd Mary, y chwac hynaf, tua 1853 a phriododd â Hugh Jones o Chwillog. Buont yn byw yn y Gwynfryn, Rhostryfan, lle magwyd chwech o blant - eu disgynyddion yn parhau yn y parthau hyd heddiw. Roedd Mary hefyd yn nain i'r diweddar Barch Hugh Jones Parry, Llangoed. 'Roedd y ddwy chwaer arall yn ddibriod. Bu Ellen Lloyd Jones yn gweini'n Lloegr a bu farw yng Nghaernarfon fis Ebrill 1930. Athrawes ysgol gynradd oedd Kate Jones a fu farw yn Garnons Street, Caernarfon yn Nhachwedd 1946.'

Y cefndryd yn y cynhebrwng oedd Dr Moelwyn Hughes - mab i frawd William Jones (tad Beuno Jones); a'r ddau ohonynt yn fab i John Hughes, Brynffynnon, Rhostryfan. Mabwysiadodd un mab, John, (Jones) fel cyfenw, a'r mab arall, Hughes. Roedd y ddau gefnder arall - y Parch Wyn Williams (Ffestiniog, Llanystumdwy ac yna'n wcinidog Glanrhyd, Llanwnda) ac R. Ffestin Williams (prifathro Ysgol Aberdyfi) - yn feibion i frawd Elin (mam Beuno Jones).

Daeth y trydydd ymateb gan R. Williams, Llain Gwta, Llanrug, a ddarganfyddodd mai Margaret Ellen Parry oedd yr eneth fach a ddaeth i frig rhestr y 'scholarship' drwy holl Sir Gaernarfon yn 1911. Daw'r wybodaeth o lyfr Gwilym J. Evans 'The Entrance Scholarship

Examinations in Caernarvonshire'. Oes rhywun yn medru ychwanegu unrhyw wybodaeth pellach am yr eneth hon? Yn yr atodiad i lyfr y Parch John Pritchard ar *Hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail*, gwelir yr enw Mary Ellen Parry, Penisarwaun yn rhestr y disgyblion am 1911. Prun sy'n gywir?

Mae'n nodi hefyd fod dwy eneth arall o fro'r 'Eco' wedi cyrraedd brig y rhestr dros y blynyddoedd. Gwawr Griffith, Bethel, yn 1915 (modryb i Selwyn?) a Bessie M. Jones, Waunfawr yn 1915 (chwaer y diweddar W. Vaughan Jones). Un bachgen yn unig sydd ar y rhestr, sef Trefor Owen Ellis, Deiniolen, yn 1931.

Dywed Mr Williams hefyd iddo glywed ei fam yn sôn mai Beuno Jones roes yr enw 'Bryn Beuno' ar dyddyn Maes Tŷ Du gerllaw'r Hafod, Ceunant. Tybed a oedd wedi bwriadu ffermio'r tyddyn ar ôl ymddeol o'i swydd ym Mhenisarwaun?

Gyda diolch i'r tri ohonoch am eich ymateb ac am wybodaeth ychwanegol am Beuno Jones a'i deulu. Diolch hefyd am godi ambell sgwarnog y bydd yn rhaid eu dilyn yn ystod yr wythnosau nesaf!

Medalau Ysgol Tan y Coed

Yn rhifyn Rhagfyr cyhoeddwyd llun o blant yr ysgol, i gyd yn gwisgo medalau a rhoddwyd enwau i'r mwyafrif ohonynt. Mae un o'r medalau rheini o'm blaen wrth i mi sgwennu hyn o druth! Fe'i cefais ar fenthyg gan Nora O'Brien (Munro gynt o Benisarwaun), Penrhos, Bangor. Mae'n fedal fawr - tua modfedd a hanner ar ei thraws, gyda'r geiriau 'For Regular Attendance' wedi eu sgwennu ar un ochr. Ar yr ochr arall mae'r geiriau 'Reward of Superior Merit'. Mae torchau o flodau a llysiau yn amgylchynu'r geiriau ar y ddwy ochr. Tybed oes rhywrai eraill o ddigynyddion y dosbarth hwnnw yn Ysgol Tan y Coed yn berchen ar rai tebyg?

Band Llanrug

Plis, plis, plis, plis a wnaiff swyddogion Band Llanrug beidio a pharhau â'r honiadau mai dyma fand hynaf Cymru, ac iddo gael ei sefydlu mor bell yn ôl â chyfnod Rhyfel Annibyniaeth America!

Y gwir amdani yw nad oedd bandiau prës yn bodoli bryd hynny. Yn 1814 y sefydlwyd band hynaf Prydain, sef y Stalybridge Old Band, ac yn 1817 y sefydlwyd yr hynaf yng Nghymru, sef Band Blaina, Gwent. Y dyddiad cynharaf y gellir dyddio Band Llanrug yn bendant yw 1834, a Deiniolen a wyddyn yn ddiweddarach, er fod posibilrwydd fod rhyw fath o fand yn bod yn Llanrug ers 1828, ond na ellir cadarnhau hynny. A hyd yn oed bryd hynny, cymysgedd o offerynnau chwyth a phres oedd y bandiau.

Teulu yn America

Bu Rhian Williams, Caerdydd (Llanberis yn wreiddiol) ar ymweliad â'r America, ble mae ganddi gysylltiadau teuluol. Anfonodd adroddiad o'i chyfnod yn chwilio am rai o'i chyndeidiau yn yr ardal ar y ffin rhwng Pennsylvania a Maryland - trefi bychan Slate Hill, West Bangor, Cardiff a Delta.

'Dros ganrif a hanner yn ôl darganfuwyd llechi yma. Daeth y chwarelwyr i gyd bron o ogledd Cymru. Yn eu plith yr oedd fy hen, hen-daid a'i wraig, Griffith a Hannah Evans, a'u chwe phlentyn. Daeth un o'r plant yn ôl i Lanberis, sef John Evans, fy hen-daid; ond yn West Bangor y claddwyd ei rieni, dau frawd a chwaer iddo. Bûm yno unwaith o'r blaen, ond heb gael digon o amser i wneud dim mwy na galw yn y fynwent. Y tro hwn roeddwn yno am dridiau.

Mae yno gapel Cymraeg - Rehoboth - gyda gwasanaeth Cymraeg a phregeth Saesneg bob Sul. Mae'r gweinidog presennol, Richard Baskwill, wedi dysgu Cymraeg. Mae côr y capel bellach yn entwg: roeddent yn canu ym mhriodas Catherine Zeta Jones.

Tra roeddem yno, cynhaliwyd Cymanfa Ganu. Roedd pawb â diddordeb mawr ynom gan ein bod yn 'siarad Cymraeg go iawn!' Deuai hen-daid un aelod o'r côr o Benisarwaun - David Roberts.

Ond er chwilio a holi, ni chawsom fawr o lwc efo hanes fy nheulu i. Roedd llawer o Gymry wedi eu claddu yn y fynwent ar lethrau'r bryn, mor bell o Lanberis. Tybed beth fyddai eu hymateb pe gwyddent fod un o'r tylwyth wedi galw i'w gweld?

Aethom ymlaen am Williamsburg gan groesi'r Chesapeake Bay Bridge - deng milltir o hyd. Roeddem yno i chwilio hanes Goronwy Owen gan fod fy nhad o'r un cyff. Gŵr o'r enw Robert Jeffrey Junior oedd yn ein tywys o amgylch - yntau o hil Gymreig, a'i deulu'n hannu o'r Fachwen a Llanrug.

Yno y cawsom "grits" i frechwast, a da oedd o hefyd!

Llawer o ddiolch am yr adroddiad. Oes rhywun yn gwybod mwy am deulu David Roberts, Penisarwaun neu deulu Robert Jeffrey?

A dyna'r cyfan am y mis hwn. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' eich cyrraedd bydd cyfarfod cyntaf dosbarth hanes lleol yn Neiniolen wedi cychwyn, a siawns na ddaw ymholiadau a gwybodaeth i'r amlwg gan yr aelodau yno. Yn y cyfamser, os oes gan unrhyw un o'r darllenwyr unrhyw wybodaeth am gynnwys y golofn y mis hwn, neu ag unrhyw ymholiad am agwedd o hanes bro'r 'Eco', cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn 01286 673515)




ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol



Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DRAMA NADOLIG. Plant Ysgol Sul Eglwys Crist, Llandinorwig a gymerodd ran yn Nrama'r Geni, brynhawn Sul cyn y Nadolig.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr John G. Jones, 9 Tan-y-Foel, yng nghwmni ei deulu ar fore Sul, 21 Rhagfyr, wedi gwaeledd byr iawn.

Gŵr annwyl Sylvia, a thad tyner y ddiweddar Jennifer, y meibion, Gwyndaf, Kevin a Jason, tad yng nghyfraith Gwenlli, Anwen a Karen, a thaid gofalus Manon, Catrin, Steffan, Gwion a Teleri, a brawd i Blodwen.

Cynhaliwyd ei angladd dydd Mercher, 24 Rhagfyr. Cymerodd y Parch Dewi Morris, Porthmadog ran yn y gwasanaeth ar yr aelwyd, ac yna cafwyd oedfa gyhoeddus yng Nghapel Cefn y Waun ac ym Mynwent Macpela o dan arweiniad ei weinidog, y Parch John Pritchard gyda Mrs M.C. Griffith wrth yr organ. Daeth llawer o'r teulu, ffrindiau a chymdogion i dalu eu teyrnged. Trefnwyd yr angladd gan Dylan Griffith, Tros-y-Waen.

MARWOLAETH. Yn sydyn ond yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, yng nghwmni ei merch a'i mab yng nghyfraith ar 4 Rhagfyr 2003, bu farw Margaret Phyllis Jones, 21 Rhydfadog. Gwraig y diweddar Gwynfryn a mam annwyl Joyce a'i phriod, Edward.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Sylvia Jones, Gwyndaf, Kevin a Jason a theulu y diweddar Mr John G. Jones, 9 Tan-y-Foel, ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd, ac am roddion hael er cof am John. Cafodd £1,300 ei rannu rhwng Ward Alaw ac Ymchwil y Cancer.

Diolch yn arbennig i'r Parchedigion John Pritchard a Dewi Morris am eu geiriau caredig, yr organyddes Mrs M.C. Griffith, a Mr Dylan Griffith yr ymgymwrwr am ei wasanaeth gofalus a thrylwyr.

DYMUNA Eleanor a Derek Morris, 7 Ffordd Deiniol a'r teulu ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd, a rhoddion a gafwyd er cof am fam mor annwyl, a fu farw dydd Sul cyn y Nadolig.

DIOLCH. Dymuna Joyce ac Edward ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli eu hannwyl fam a mam yng nghyfraith, sef Margaret Phyllis Jones, 21 Rhydfadog.

Diolch arbennig i staff Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd a'u cymdogion yn Rhydfadog am eu caredigrwydd. Diolch arbennig hefyd yn ogystal i Dylan Griffiths, y Trefnydd Angladdau, am wasanaeth a threfniadau trylwyr iawn.

DIOLCH. Dymuna John Morris, Rhiwen, ddiolch i'w deulu, ei ffrindiau a'i gymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur pen-blwydd arbennig. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Mrs Edna Jones, 12

Maes Gwylfa, a'r merched, Edwina a Wendy, ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd wedi colli Mr Elwyn Jones, gŵr, tad a thaid annwyl. Diolch am y cardiau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau. Bydd yr arian a gafwyd er cof amdano yn mynd i Gronfa Nyrsus Macmillan. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCHIADAU. Dymuna Lizzie Catherine Roberts (Bet), 25 Rhydfadog ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a gafodd pan yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 8 Rhagfyr.

LLONGYFARCHIADAU i'r Parch D. John Pritchard ar gael ei benodi'n Ysgrifennydd Cyngor Eglwys Rhyddion Cymru, swydd bwysig a chyfrifol iawn. Dymunwn yn dda iawn iddo.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir fel pentref â'r teuluoedd sydd mewn profedigaeth.

Mrs Edna Jones, Maes Gwylfa a'r merched, Edwina a Wendy, yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl, sef Mr Elwyn Jones.

Mrs Eleanor Morris, Ffordd Deiniol a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli mam Eleanor, mam, nain a hen-nain annwyl.

Hefyd Mrs Sylvia Jones, 9 Tanyfoel a'i meibion, Gwyndaf, Kevin, Jason a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli Mr John G. Jones, gŵr, tad a thaid annwyl.

Mrs Joyce Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mrs Phyllis Jones, 21 Rhydfadog, mam Joyce.

DYMUNA Delyth, 16 Maes Gwylfa, Clwt y Bont a'r teulu, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar enedigaeth y triplidi, Sophie, Chloe ac Ellen. Diolch arbennig i'r Uned Gofal Arbennig i Fabanod yn ysbytai Wrecsam Maelor, Alder Hey, Lerpwl, Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd am eu caredigrwydd a'u gofal. Diolch yn fawr.

MARWOLAETH. Bu farw Dennis Evans (gynt o Hafod Olau) yn ei gartref yn Northwich ar 23 Ionawr, wedi gwaeledd brwnt. Aeth yno i weithio wedi gorffen ei wasanaeth milwrol, ac arhosodd gan fagu teulu hefo'i wraig, Tess - tri o fechgyn a merch, sydd wedi ymgartrefu yn Awstralia. Roedd yn fab i Laura Williams a Griffith Evans, ac yn frawd i William Idris o Gesarea, Megan Lambert, Pentre Helen, Mary Williams, Bangor a Jane Jones, Rhydfadog - collwyd y pump erbyn hyn. Mae'r angladd dydd Gwener, 30 Ionawr am hanner dydd.

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.

Pentir (01248) 353746

CYNGOR CYMUNED Y WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr ar nos Fercher, 12 Ionawr. Roedd y Cynghorwyr Clive James a Vera Roberts yn bresennol.

Roedd Cyfadran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd wedi ymateb ynglŷn â materion priffyrdd fel a ganlyn:

Tawelu Traffig Caeathro:

- Bwriedir rhoi sribedi coch ar draws y ffordd ar ochr Caernarfon y pentref yn y flwyddyn ariannol nesaf;
- Ni fydd tawelyddion oherwydd ei bod yn ffordd Dosbarth 1, a hefyd mae canlyniadau mesuriadau cyflymder (mis Mai 2003) yn dangos nad ydi traffig yn mynd dros 35mya;
- Tawelyddion heibio'r cae chwarae - am gael ei ystyried yn y flwyddyn ariannol nesaf;
- Adeiladu pafin ger Erw Cottage - ddim yn bosib oherwydd lôn Dosbarth 1;
- Newid llinell derfyn cyflymder traffig 30mya - nid yw trefn 'lôn ddistaw' wedi ei dderbyn yng Nghymru eto, felly rhaid defnyddio'r canllawiau presennol;
- Newid cyflymder lôn Caeathro i Gaernarfon i 40mya - dim datblygiadau arni ac ychydig o fynedfeydd, ond os caiff Peblig ei ddatblygu fe ellir ail-edrych ar y sefyllfa;
- Adeiladu pafin diogel Caeathro i Peblig - cost aruthrol ac nid yn gost effeithiol o achos y nifer o bobl a fuasai'n ei ddefnyddio.

Clywodd yr aelodau fod Cyngor Gwynedd wedi caniatáu adeiladu unedau diwydiannol ar faes parcio hen ffatri Peblig, ond heb ymgynghori â'r Cyngor Cymuned. Fodd bynnag, oherwydd hyn mae'r achos yn cryfhau i ledu'r bont, gostwng y cyfyngder gyrru a darparu'r pafin o Bryn Eden i Bont Peblig.

O'r diwedd roedd swyddog yng Nghyngor Gwynedd wedi addo codi arwydd 'Dim Chwarae Pêl' ar dir Bryn y Gof, archwilio tiroedd y tu ôl i dai Bryn y Gof, a thorri'r gordyfiant rhwng Y Bwthyn ac Eryl.

Er mwyn codi'r arian tuag at Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau bydd cyfarfod cyhoeddus yn y Waunfawr ym mis Mawrth er mwyn sefydlu pwyllgor ar y cyd rhwng pentrefi Waunfawr a Chaeathro.

Roedd y Cyngor Cymuned yn erbyn cais cynllunio i godi tŷ o flaen Cefn Rhos. Doedd dim gwrthwynebiad i estyniad i yn l Caeathro Bach nac addasu stablau Rhosygwallia yn storfeydd. Roedd Cyngor Gwynedd wedi caniatáu newid defnydd i Benrhos ar gyfer angladdau a phriodasau. Gwrthodwyd cais i adeiladu dau dy ar gae Pwll y Bar.

Mae'r Cyngor am ofyn i Gyngor Gwynedd am arwydd ar lôn HEN GAPEL er mwyn cyfeirio galwyr.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor ar 10 Mawrth yn ystyried ceisiadau ariannol i fudiadau gwirfoddol a chymunedol.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCN UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

GAFR AR GRWYDR



'Pan fo'r geifr yn ymada'l o'r mynydd ac yn cyrchu llawr gwlad, a'r iseldiroedd, yna golyga bod tywydd garw ac eira ar fin dŵad!'

Yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* tt.1370-1 disgrifir yr afr fel *anifail hirflew o rywogaeth y Capra* (nodweddir y gwryw gan ei gryn a'i aroglau cryf) sy'n enoi ei gil ac yn crwydro mynyddoedd. Yr afr wyllt ydyw'r *capra hircus*. Credir yng nghefn gwlad ei bod â'r gallu ganddi i broffwydo'r tywydd. Honnir ei bod yn cynorthwyo'r defaid yn ystod, a chyn, tywydd mawr. Ni all fyw heb fwyd. Pan ddaw'r eira'n drwm, a'r rhew'n hollti'r creigiau, ni all yr afr durio oddi tan yr oerni er mwyn cyrraedd at laswelltyn prin. Nid oes ond un peth yn ci haros. Rhaid ymadael, a chribinio am damaid o fwyd mewn man arall. Mi gredaf, heb honni fy mod yn llygad fy lle, mai yng ngoleuni'r gair crwydro y llecha'r trobwynt i'r gwirionedd ynghylch y goel bod yr afr yn ymadael â'i chynffin ar y mynydd pan fo hi'n argoeli tywydd mawr, ac yn chwilio am ei bwyd yn y dyffryn islaw. Ran natur, un grwydredig ydyw hi ac y mae'n dyfod i'r gwaledion hyd yn oed pan fo'r ucheldir yn ddi-eira! Daw i waelod Nant Peris pan nad oes rhithyn o rew oddeutu. Ond yn sierach fyth - mae hi yno pan fo'i byd yn gyfyng llwm, a phrinder bwyd ar y mynydd-dir. Yr unig wahaniaeth ydyw hyn; yn y gaeaf, pan fo nifer o'r coed yn ddi-ddail, a'r moelni'n amlwg, ynghyd â phob dafad fynydd wedi mynd i bori draw i'w nefoeddau gwynion ym Mhen Llŷn, neu'r Rifera de Sol ar lan y môr yn Ninas Dinlle, yna tasg

cwbwl hawdd yw canfod yr afr, neu eifr, ar y llethrau! Yn y tymhorau eraill gall symud yn ddi-drafferth ymhlith y defaid heb i neb ei chanfod.

Ebc William Williams, Llandegai (yn) *Observations on the Snowdon Mountains*, (1802) 'ni wna'r afr mewn tywydd garw ildio'i lle ar graig.' Ond ai gwir hynny? Fel arall dd'wedwn i! Dyna'r pamffledyn *Geifr Gwyllt Eryri*, d.d. a chyhoeddiad Sefydliad Ecoleg Tir, sy'n tynnu ein sylw fel a ganlyn at eifr a'u harferion tymhorol: 'Daethpwyd â geifr i Eryri rhyw bedair mil o flynyddoedd yn ôl gan y ffermwyr cyntaf, sef pobl Neolithig (yr oes Gerrig Newydd), pan ddaethant i Brydain o Gyfandir Ewrop. Er eu bod yn aros ar dir uchel creigiog am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, daw'r geifr i lawr i'r llethrau is yn ystod tywydd garw. Fel arfer symudant mewn grwpiau bychain o dri neu chwech ond yn ystod y tymor ymlid ym misocdd Medi a Hydref ffurfir grwpiau llawer mwy... Cyffredin yw ymladd ymhlith y bychod yn ystod y tymor ymlid... Erys y benywod o fewn terfynau cynefin ond crwydra'r bychod ymhell, yn ymweld â grwpiau o fenywod led-led Eryri. Yn y gaeaf ceir llawer llai o grwydro a bydd y geifr yn treulio eu hamser yn chwilio am fwyd, weithiau'n defnyddio eu cynn i hel yr eira o'r neilltu, ac yn llechu mewn mannau traddodiadol yn y sgri bras neu ar dir garw creigiog.'

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

DATHLU GŴYL Y NADOLIG
Cynhaliwyd yr oedfa i ddathlu'r Wyl fore Sul, Rhagfyr 21ain, dan lywyddiaeth R.Wyn Evans. Roedd y defosiwn agoriadol dan ofal Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones. Roedd cyfraniad yr ieuencid yn dilyn dan ofal Lowri Roberts Williams. Mwynhawyd eu cyflwyniad bywiog - 'Nadolig y dinasoedd - Bangor a Bethlehem'. Diolch i Caryl ac Awen Jones, Rhian ac Anna George am eu hymroddiad a'u cyfraniadau graenus bob amser ar lafar a chân. Cymerwyd rhannau pellach gan Jennie A. Roberts, Norman a Lowri Williams, Bertie Lloyd Roberts, Verna Jones, Robert John Williams, Dafydd G. Ellis ac Emyr Williams.

CANU CAROLAU. Yn dilyn llwyddiant y noson garolau ar drothwy Nadolig 2002 i godi arian at Apêl Bangladesh, penderfynwyd mai da o beth fyddai dal â'r arferiad i'r dyfodol. Felly, Nos Lun Rhagfyr 22ain aeth grŵp o aelodau ac ieuencid yr Eglwys o gwmpas yr ardal a chael croeso brwd unwaith eto gan yr ardalwyr, o un pen y pentref i'r llall - ardal Penllyn, canol y pentref, ardal Minffordd hyd Trem Eilian ac Erw Nant. Roedd yn noson ffafriol o ran y tywydd a bu'r ardalwyr yn hael eu rhoddion. Diolch yn fawr iawn i bawb. Casglwyd £139, ac yn ychwanegol cyflwynwyd £36, sef casgliad elusenol Dosbarth Ysgol Sul yr Oedolion i wneud cyfanswm o £175 a drosglwyddwyd eleni i Gymorth Cristnogol.

OEDFAON CHWEFRO

- 1 Mr Alun Rowlands, Bangor am 5.30
 - 8 Parch H.Gwynfa Roberts, Llanwnda am 5.30
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
 - 15 Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon am 5.30;
 - 22 Mr Huw Jones, Llanwnda am 5.30
 - 29 Dr Tudor Ellis, Y Groeslon am 10
- CYDYMDEIMLAD.** Roedd yn ofidus gennym fel ardalwyr ddeall am ymadawiad y ddiweddar Mrs Maggie Lizzie Ellis, gynt o'r Gors, ar Ionawr 16eg yn 94 mlwydd oed. Cyn symud i fyw i Rhiwlas dros chwe blynedd yn ôl, yma ym Mrynrefail y treuliodd bron i hanner can mlynedd o'i hoed. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Wil Williams, Carreg Siân, Erw Nant, yn ei brofedigaeth o golli ei dad, sef y diweddar John Lewis Williams, Bangor.

SEFYDLIAD Y MERCHED Cyfarfu'r aelodau yn Ysgol Gymuned Cwmyglo nos Lun, Ionawr 19eg, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Y gŵr gwadd i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd oedd Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug. Roedd ei sgwrs yn ymdrin â hanes llofruddiaeth Bryngwyn ger Marchlyn, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mai Davies ac Elinor Williams oedd yng ngofal y lluniaeth a'r olaf yn cyflwyno gwobr y mis a enillwyd gan Helen Morris. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Chwefror 16eg, yng nghwmni Mr Robin Jones, Bethel.

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

cyngor
ar
bopeth

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

Jones

Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Cymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

LLONGYFARCHIADAU. Dymuniadau gorau i Rhys Fleming, 13 Bryn Moelyn, yn dilyn ei lwyddiant yn cyrraedd Safon Efydd, Gwobr Dug Caeredin. Da iawn ti.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Joan Williams, Llwyfor, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob dymuniad da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Fe ddymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am y cardiau ag anrhegion Nadolig, a hefyd y cardiau anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar. Dymuna ddiolch i'r teulu am eu caredigrwydd ar hyd y flwyddyn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dymuna Rachel W. Thomas, Min-y-Rhos, ddiolch i'w chymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn dilyn ei damwain yn ddiweddar. **BABI NEWYDD.**

Llongyfarchiadau mawr i Melvyn a Sioned, 21 Rhosrug, ar enedigaeth eu mab bach, Cian Sion, a anwyd ar 23 Rhagfyr 2003. Mae ei ddwy chwaer fawr, Leah a Caryl, wedi gwirioni, ac anrheg neis i Taid Dick a Nain Hefina.

BRYSIWCH WELLA.

Yn anffodus, mae Caryl, 21 Rhosrug, yn yr ysbyty yn cael archwiliad ar hyn o bryd. Brysia fendio Caryl bach, i ti gael magu dipyn ar Cian.

Cofion gorau at Meirwen Lloyd, Bryn Moelyn, hithau wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ond erbyn hyn yn gwella adref.

LLONGYFARCHIADAU i Tracy Wyn Griffith, Bryn Ffynnon, Bryniau Fawnog, ar basio arholiad piano Gradd 1 o dan ABRSM gydag anrhydedd. O ganlyniad cafodd gyfle i gymryd rhan mewn Cyngerdd y Goreuon yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor. Da iawn ti.

DAMWAIN. Bu Rachel Thomas, Min y Rhos, mewn damwain car cyn y Nadolig. Da iawn yw deall eich bod yn well o lawer erbyn hyn.

PROFEDIGAETHAU.

Dymuna Eirlys a'r teulu, Berllan, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Tad a Thaid annwyl, sef Edward Williams, o Bontnewydd.

Cydymdeimlwn yn arw â Dewi a Delyth Owen (Tai Bryn Arfon, Crawiau) yn eu profedigaeth o golli ei merch fach, 8 diwrnod oed. Anfonwn ein cofion at Dafydd a Lorna a'r teulu i gyd ar amser anodd iawn.

Cydymdeimlwn eto â Wyn ac Angela Roberts, 12 Nant y Glyn, a David, y mab a'i wraig, yn eu profedigaeth fawr hwythau yn dilyn marwolaeth eu mab, ac wyf bach, yn Warrington.

MECHED Y WAWR.

Ar nos Fawrth, 9 Rhagfyr aeth aelodau Cangen Llanrug i Blas

Tirion i ddathlu'r Nadolig. Cawsant groeso cynnes iawn gan Cerid McKinnon a'i staff, a threuliwyd peth amser yn ymlacio mewn ystafelloedd wedi eu haddurno'n chwaethus. Yna mwynhaodd pawb bryd ardderchog o fwyd, gan orffen gyda siocledi cartref. I ddiweddu'r noson rhoddwyd datganiad hyfryd o Garol y Swper gan gôr y gangen, o dan arweinyddiaeth Megan. Enillwyd y gwobrau raffl gan Bethanne a Menna. Diolchodd Meirwen, y Llywydd, am noson arbennig iawn a dymunodd Nadolig Llawn i bawb.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Ionawr.

* * *

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar nos Fawrth, 13 Ionawr yn y Neuadd Gymunedol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eryl, yr Is-lywydd, a dymunodd yn dda i Meirwen, y Llywydd, a oedd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol. Diolchodd i Megan am hyfforddi'r côr ar gyfer Gwasanaeth y Plygain yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon. Llongyfarchwyd Helen ar ddod yn nain unwaith eto, wyres y tro yma. Ffion Enlli. Anfonodd Mrs G.M. Jones, Y Dalar Deg, gerdyn ynghyd â siec am £20 i'r gangen.

Y wraig wadd oedd Liz Woodcock, yn wreiddiol o Henffordd, ond sydd wedi ymgatrefu bellach ym Mhenisarwaun ac mae'n dysgu Gymraeg ers 6-7 mlynedd. Rhoddodd Liz adroddiad i ni ar waith Tear Fund, yn bennaf ym Mheriw, lle bu ar ymweliad ym mis Ebrill 2003, a hynny mewn arddul byrlymus a'r Gymraeg yn rhugl ar ei gwefusau. Dangosodd luniau o'r ardaloedd tlawd ynghyd â mannau mwy llewyrchus, a chawsom beth o hanes arferion cymdeithasol yr ardaloedd gwledig, megis trigolion pentref cyfan yn symud pan gwyd unigolyn ei bac.

Swyddogaeth Tear Fund yw rhoi cymorth i bobl ennill eu bywoliaeth eu hunain trwy werthu crefftiau, ayyb., i wledydd eraill ac i'r farchnad dwristiaeth ym Mheriw. Roedd Liz wedi paratoi arddangosfa o'r amryw grefftiau a gynhyrchir yn y wlad a dosbarthodd gatalogau fel bod modd i bawb archebu gemwaith ac eitemau eraill o grefft. Rhoddodd Liz agoriad llygaidd arbennig ar waith Tear Fund ym Mheriw ac roedd pawb wedi rhyfeddu at ei huodled yn y Gymraeg.

Paratowyd y baned ar ddiwedd y cyfarfod gan Meryl, Nan, Ann Lloyd, Ann Ifans a Gwenda.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 10 Chwefror, a bydd Llinos Roberts yn rhoi cyflwyniad ar Bwythau Cain.

CYDYMDEIMLAN yn ddwys â Mrs Eirlys Williams, Y Berllan, a'r teulu o golli ei thad, a Dylan a Carolyn o golli taid annwyl yn y Bontnewydd.

CAPEL Y RHOS. Trwy

garedigrwydd y Prifathro, Mr Robin Williams, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul eleni yn yr Ysgol Gynradd. Pleser mawr oedd gweld y plant yn perfformio mor arbennig, a llawer o ddiolch i'r athrawon ymroddedig am eu gwaith di-flino gyda'r plant dros yr Wyl, ac ar hyd y flwyddyn.

Ar ddiwedd y gwasanaeth cyflwynwyd basged o flodau i ddwy athrawes oedd yn ymddeol ar ôl blynyddoedd o ffyddlondeb i'r Ysgol Sul, sef Mrs Helen Parry, Ceunant, a Mrs Ann Jones, Crawiau.

Diolch hefyd i Mrs Shan Wheway am gyfeilio.

Bore Nadolig, dan arweiniad ein Gweinidog, cynhaliwyd gwasanaeth byr gyda aelodau a phlant o'r eglwys yn cymryd rhan, sef Mr Aled Gibbard, Miss Doris Adam, Llywelyn Williams, Gwenno Gibbard a Heledd Roberts. Daeth y plant ag un anrheg gyda hwy i'w ddangos.

Rhwng Gwasanaeth y Diolchgarwch a'r Gwasanaeth Nadolig casglwyd £307 tuag at Gronfa Tŷ Gobaith yng Ngogledd Cymru.

CYFARFOD GWEDDI UNDEBOL. Yn dilyn yr hen arferiad o gynnal Cyfarfod Gweddïau ar ddechrau blwyddyn newydd, fe gafwyd cyfarfod gweddi yng Nghapel Hermon, nos Lun y pumed o Ionawr. Cymerwyd rhan gan Mr Alf Parry, Mrs Olwen Hughes, Mrs Bethanne Williams, Mr Aled Gibbard, Mr Dafydd Gibbard a'r

Parch Dafydd Hughes. **YSGOL GYNRADD LLANRUG.** CYDYMEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Anti Eirlys, y gegin, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Eirlys yn ddiweddar.

LLWYDDIANT. Daeth tîm pêl-droed merched dan 12 oed yr ysgol yn fuddugol yn nhwrnament pêl-droed pum bob ochr yr Urdd, a gynhaliwyd ym Mangor ddydd Sadwrn, 12 Ionawr. Llongyfarchiadau i chi genod, a phob hwyf rwan pan fyddwch yn cystadlu yn Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth yn ystod mis Ebrill.

Bydd tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament yr Urdd yn ystod mis Chwefror - dymunwn yn dda iddynt hwythau hefyd.

CROESO i Mr Rita Williams atom yn athrawes Blwyddyn 1 am gyfnod.

DYMUNO'N DDA. Daeth cyfnod Miss Nia Morris o Fethel, a fu gyda ni yn hyfforddi i fod yn Weinyddes i ben. Diolchwn iddi am bob cymorth a dymunwn yn dda iddi yn ei gyrfa.

EISTEDDFOD YR URDD. Mae'n gyfnod Eisteddfodau'r Urdd unwaith eto a'r aelodau'n brysyr yn paratoi ar gyfer cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch ar 28 Chwefror a 4 Mawrth.

CLO I DYMOR Y NADOLIG.

Fe hoffem ddiolch i Meinir Gwilym am ddod atom i'n difyrdd ddiwedd tymor y Nadolig. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando arni'n canu.

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth y 6ed o Ionawr yng nghanolfan Penisa'rwaun. Llywyddwyd gan y gadeiryddes Miss Sara Wood

Offrymwyd y Weddi ddechreuol gan y Cyngorydd Richard Ll Jones gan ddechrau gyda'r englyn canlynol:

Rheidrwydd ar ddechrau blwyddyn -
yw gosod

I'n gwysu i'w dilyn.

Au darfod ger rhyw derfyn,

Llywio gwydd, pob dydd wna dyn.

Llongyfarchwyd Richard hefyd ar ennill Cadair Eisteddfod Talwrn.

Llongyfarchwyd Gwilym Williams ar achlysur ei briodas. Derbyniwyd cofnodion Rhagfyr fel rhai cywir.

Materion o'r Cofnodion

Eisteddfod Genedlaethol 2005.

Ni ddaeth ateb oddi wrth Gyngor Gwynedd i'r cais (17/11/03) am ganrannau'r Pentrefi o boblogaeth y Gymuned, fel y gellid rhannu'r targed o £16,750.

Ystyriwyd gofyn am fwy o braesept ar y dreth, gallai ychwanegiad gael ei ddefnyddio i gefnogi'r Eisteddfod yn ystod 2004/2005, ac ar ôl hynny at brosiectau cymunedol.

Amlygwyd y ffaith nad oedd y braesept wedi ei chodi ers blyneddau a dim ond un Gymuned yng Ngwynedd sydd yn derbyn llai na Llanddeiniollen. Gan bod rhaid cyflwyno'r cais i Gyngor Gwynedd cyn 31ain o Ionawr, penderfynwyd bod y Clerc yn paratoi manylion a'u cyflwyno i'r Grŵp Cymunedol ar y 19eg. Fel arwciniaid i'r Grŵp awgrymwyd codi £3,000

ychwanegol, sef praecept o £10,000. Rhoddwyd rhyddid i'r Grŵp benderfynu.

Cyflwynwyd

• Bryn Tirion, Deiniolen: Ateb Gwynedd eu bod yn trefnu archwiliad;

• Teganfa Gwynedd: Cyflwynwyd eu hateb bod eu teganau ar fenthyl i fudiadau meithrin ac un teulu yn y gymuned ar hyn o bryd. Penderfynwyd ystyried y cais ynghyd â cheisiadau eraill, Fis Hydref;

• Pen Caerau - Cae Metta, Llanddeiniollen: Ateb Gwynedd bod y gwaith angenrheidiol ar eu rhagen;

Llwybrau

Gofynnwyd i Gyfadran Amgylchedd Gwynedd (Cofnod 7, 04/11/03) beth yw hawliau'r pechnogion tir a faint yw lled llwybr ar dir agored. Derbyniwyd llyfryn Canllaw i ffermyr a thirfeddianwyr - rheoli mynediad cyhoeddus. Bydd y llyfryn ar gael gan y Clerc.

Llwybr 18, Bryn'refail: Cadarnhad Gwynedd bod y gamfa wedi ei gosod.

Heddlu

Eglurodd y Cyngorydd Huw P

Hughes bod y plisman bro bellach yn gweithredu dros Y Felinheli, Bethel, Rhiwlas, Deiniolen, Dinorwig a Phenisa'rwaun

Gohebiaethau eraill

Cais Cyngor Gwynedd i'r Cyngor Cymuned fod yn ymddiriedolwr i Gae Chwarae Clwt y Bont. Addawodd y Clerc wneud ymholiadau ynglŷn â chymlethderau hyn.

Awdurdod yr Heddlu

Cyhoeddwyd cyfarfod Cadeiryddion Cyngorau Tref/ Cymuned - Môn, Gwynedd, Conwy, Dinbych Fflint a Wrecsam, yn Siambr Dafydd Orwig ar y 26ain o Ionawr. Hefyd cyfarfod Cyhoeddus 'Deud dy ddeud' yn Neuadd Penrhyn ar yr 22ain o Ionawr.

Soniodd y Cyngorwyr Aled Green a Richard Ll Jones am fwiad y Prif Gwnstabl, Richard Brunstrom, i leoli Plismyn yn eu cynefin, penderfynwyd danfon llythyr ato i amlygu gwrthfawrogiad o hyn.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Aled Green at fan, 'cyrraedd yn ddiogel' yr Heddlu a oedd ar y gwair yn beryglus o agos i gyffordd Bryn'refail/Cwm y Glo. Wrth deithio o gyfeiriad Bryn'refail i Lanberis roedd yn rhaid i yrrwyr fynd ymhell allan i'r ffordd fawr cyn gweld yn glir. Soniodd hefyd mai dim ond ar un shift y mae Cymro Cymraeg yng Ngorsaf Llanberis, Saeson sydd ar y ddwy shift arall. Penderfynwyd danfon cwyn i Gaernarfon.

Cyflwynwyd dogfen Gwynedd ar 'Cynllyn Addysg Gymraeg'. Mae cynnod y cynllun presennol ar fin dod i ben.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Elwyn Jones unwaith yn rhagor at y ramp cyflymder yn Rhiwlas. Mae ceir sy'n dod i lawr yr allt bellach yn mynd i'r ochr anghywir er mwyn ei osgoi - atgoffa Gwynedd. Cyfeiriodd hefyd at amryw o bolion ffôn a godwyd ger Bro Rhiwen, gellid bod wedi defnyddio polion trydan sy'n bodoli yno neu, yn well byth, tanddaccu'r gwasanaeth - cwyn i BT

Cynllunio

Cyflwynwyd ateb Cyfadran yr Amgylchedd Gwynedd (Cot newydd yr Adran Gynllunio!) ynglŷn â'r Cynllun Unedol.

Siaradodd y Cyngorydd Huw P. Hughes trwy fwiadau'r Cynllun a dywedodd bod ail fersiwn y cynllun wedi ei baratoi. Eglurodd y Cyngorydd Pat Larsen y bydd 5 mlynedd o adolygu ar ôl i'r cynllun terfynol gael ei dderbyn.

Nid yw'r Cyngor yma wedi derbyn yr ail fersiwn - cais i Wynedd.

Dywedodd y Cyngorydd Gwilym Williams nad oedd

trigolion Clwt y Bont wedi eu hysbysu o'r cais am losgydd yn Glan Dinorwig - cwyn i Wynedd.

Cais a wrthodwyd gan Wynedd • Cadw arwydd presennol ger pen Nant y Garth.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd

Estyniad: 102 Cae Glâs, Rhiwlas.

Codi Sied: Fferm Wern, Bethel.

Saethu Paent: Castell, Rhiwlas.

Llwybrau

• Hysbyswyd y Cyngor bod y bont ar lwybr 27, Clwt y Bont wedi ei thrwsio a bod y Cyngor mewn cysylltiad â Pharc Padarn ynglŷn â'r llwybr ger Dublin House, Dinorwig.

• Llwybr 134, Cae Metta/Coed Efa: adroddodd y Cyngorydd Richard Ll Jones bod camfa ar y llwybr yma yn arwain yn syth i'r Afon. Dywedodd y Cyngorydd Phyllis Ellis bod clo ar lidiart ger Tawelfa ar yr un llwybr - llythyr i Wynedd.

• Dywedodd y Cyngorydd Huw P Hughes bod sbwriel yn dal i gael ei adael ar llwybr 6 - Siop Treflan i Tan y Fynwent.

Materion eraill

Golau yn cynnau a diffodd yn afreolus ger Tŷ Elidir (lamp 15). Angen goleuadau ar faes parcio Tŷ Elidir.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 3ydd o Chwefror



GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- CWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch

ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



CYFLENWYR DILLAD
AC OFFER ARBENIGOL
AC YSGAFN AR GYFER
RHEDEG, RASIO ANTUR
A MYNYDD

Am ragor o wybodaeth
cysylltwch â
57 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn 01286 879080

www.surf-lines.co.uk

eich antur chi ydyw...

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Adroddiad o'r Gwasanaeth Nadolig

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Brynrefail eleni ar Ragfyr 15ed, yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Cafwyd nifer o eitemau gan aelodau o bob blwyddyn Ysgol, gan gynnwys grwpiau llefaru amrywiol, a darlleniad gan y Prif Fachgen, Geraint Iwan, a'r Prif Ferch, Cenin Eifion. Cafwyd perfformiad gwych o drefniant Mrs. Anwen Edwards o'r gân 'Can you feel the love tonight' (Anthem Bethlem Dref), a'r geiriau gan Mrs Lowri Roberts. Cafwyd trefniant modern o gorws 'Bachgen a Aned', yn wreiddiol o'r oratorio'r Mescia gan Handel. Yr unawdwyr oedd Huw Foulkes ac Elin Mai.

Perfformiodd corau hŷn ac iau yr Ysgol, ynghyd ag amryw o wahanol ensembles lleisiol ac offerynnol, gan gynnwys Côr y Staff a Chôr y Chweched Dosbarth. Cafwyd eitemau unigol gan Stephanie Welsby, Angharad Morris a Mari Deiniol. Rhaid canmol datganiad y Band Prcs o'i trefniant o 'Jingle Bells' dan hyfforddiant Miss Rebecca Roberts.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd cyfeilio graenus gan Huw Foulkes, Lois Eifion, Dewi Foulkes, Ifan Dafydd a Robin Llwyd Jones.

Diolch am gyfraniad pawb, yn ddisgyblion a staff, a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i greu y naws arbennig a deimlwyd yn y gwasanaeth eleni.

Hoffai'r Prifathro, staff a disgyblion ddiolch i swyddogion yr eglwys am eu cefnogaeth parod i lwyfannu'r gwasanaeth arbennig hwn.

Dyma ymateb rhai o ddisgyblion Bl. 10, 12 a 13 am y noson.

'Roedd y gwasanaeth yn llwyddiannus iawn a'r caneuon yn wahanol, ond eto yn adnabyddus. Hoffais fod yn aelod o'r côr.'

Heledd Bryn Parri.

'Yn sicr, cefais ddigon o hwyl unwaith eto eleni wrth weld y staff yn rhannu eu talent â gwceddill yr Ysgol - profiad a hanner!'

Huw Foulkes

Mwynheais gymryd rhan yn y côr staff a'r chweched - doeddwn i ddim yn gwybod fod y staff mor dalcntog!'

Laura Beard.

'Oedd o'n Gret!'

Angharad Fisher

'Rocdd yr holl baratoi called wedi talu ei ffordd!'

Sioned Alaw a Manon Jones

'Roedd o'n hwyl!'

Gwen Tomos a

Lowri Vaughan Jones

Ysgol Brynrefail



Hogia'r Wyddfa yn difyrru'r plant.

Dipyn o giamstar tu ôl i'r olwyn. A sôn am hagliwr am bris wrth y till!

Daeth y diwrnod mawr a phopeth yn barod. Roedd y wên ar wynebau plant Pendalar yn gwneud popeth yn werth chweil. Siôn Corn yn bictiwr yn y siwt goch. Pawb yn cyd gymysgu a mwynhau ei gilydd yn un teulu mawr. Diolch i'r bytholwyrdd Hogia'r Wyddfa ac Annette Bryn Parri am eu hadloniant bywiog, ac i Mrs Rhian Owen a Ms Anwen Evans am ddarparu'r lluniaeth blasus a thorfol! Yn ogystal diolch o galon i'r llu noddwyr o'r fro am unrhyw gyfraniad.

Y diolch olaf i'r holl fyfyrwyr a staff a sicrhodd barti Nadolig i'w gofio i ddisgyblion Ysgol Pendalar.

*Alun Foulkes a Ceri Wyn Jones
(Cyd-gysylltwyr Parti Pendalar
2003)*

Hoffwn gydnabod nodd parod y cwmnïau ac unigolion isod tuag at lwyddiant y parti.

LLANBERIS

Côr Dyffryn Peris, Gwesty Victoria, C.P.D. Llanberis, Gwesty Padarn Lake, Y Mynydd Gwefru, Spar.

LLANRUG

Garej Hafod, Spar, Post, Arvonja, Cerrig Beddau (J.M.Jones a'i Fab), Becws Bryn Gwyn, Wavell Roberts, Caffi Cefn Coed, Ysgol Gynradd Llanrug, Penbont, Londis.

BETHEL

C.P.D. Bethel, Adran Tai Cyngor Gwynedd, C.P.D. Ieuencid Bethel, Merched Y Wawr, Y Bedol, Chubbs Cabs

DEINIOLLEN

Clogwyn, Spar, Band Deiniollen, S. Jones (Electricals), Beran

CAERNARFON

Clwb Golff Caernarfon, Dodrefn Perkins, Gray Thomas, H a H Cosmetics, Siop y Plas, Nic-Nacs, J. a C. Siop Sglodion, Cigydd Roberts ac Owen, Siop Twthill, Y Bwrdd Crwn, Canolfan Hamdden Arfon.

RHODDION

Mrs. E. Beard, Gelli Gyffwrdd, R. a J. Wholesale, D. R. Williams (Felinwnda) Wardle Stores (Llandegai) a Banc y Nat West.



Dafydd (Siôn Corn) yn cyflwyno un o'r llwyddiant.

Cyfraniadau Elusennol

Cyflwynwyd siec am £414 tuag at fudiad Gofal McMillan, a £200 at fudiad Cymorth Cristnogol.

Casglwyd yr arian at ymgyrch McMillan wrth i staff a disgyblion arwyddo poster yn dymuno cyfarchion yr Ŵyl i'w gilydd yn hytrach nac anfon cardiau.

Roedd Cleo de Vito, wrth dderbyn y siec, yn hynod falch o gydnabod cyfraniad pawb i'r ymdrech, a phwysleisiodd bwysigrwydd gwaith y mudiad i sawl teulu ar adegau anodd.

Cafwyd casgliad anrhyddedus iawn yn Eglwys Sant Padarn yn ystod y Gwasanaeth Nadolig, a'u cyfrannu at fudiad Cymorth Cristnogol.

Diolch i bawb am eu hacioni ac am gefnogi y gwir ystyr o rododi ar yr Ŵyl.

PÊL-RWYD dan 16

Bu'r tîm yn cystadlu yn Nhwrnament Gogledd Gwynedd ar Ionawr 12ed.

Collwyd y ddwy gêm gyntaf yn erbyn St. Gerrards ac Ysgol Friars, yna cafwyd tro ar fyd. Llwyddwyd i wella'r cyd-chwarae a chadw'r meddiant.

Wedi curo Ysgol Dyffryn Ogwen cynyddodd yr hyder, a daeth dwy fuddugoliaeth arall, yn erbyn ysgolion Tryfan a Syr Hugh Owen. Ar ddiwedd y twrnament roedd Brynrefail yn y trydydd safle.



Cleo de Vito, Apêl McMillan, yn derbyn siec am £414 gan Gwyn Jones ac aelodau o'r fforwm disgyblion.



Branwen Nicholas, Cymorth Cristnogol, yn derbyn siec am £200 gan Gethin Morgan ac aelodau'r bed dosbarth.



Tîm Pêl-rwyd dan 16.



Mr Dafydd Jones (Nat West) yn cyflwyno siec am £250 i Hurw a Ceri.

(Mwy o luniau ar dudalen 22.)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr:

£40: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £25: Mrs Nellie Roberts, 25 Tref Eilian; £10: Margery Jones, Bodlondeb.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Sefydliad croesawodd Mrs Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Rhiannon Roberts, Caeathro, i roi arddangosiad o sut i wneud addurniadau Nadolig. Mae'n amlwg fod Rhiannon yn hen law arni, fel y gwelsom oddi wrth y rhai a ddangosodd i'r aelodau. Cafodd pawb gyfle i wneud rhai eu hunain gyda Rhiannon yn cynghori wrth fynd ymlaen. Roedd pawb yn teimlo'n glyfar iawn wedi medru troi allan addurniadau digon da i'w rhoi ar y Goeden! Phawn diddorol iawn yn wir. Diolchodd Pat i Rhiannon.

Ar bnawn lau, 8 Ionawr, croesawodd Mrs Catherine Jones 13 o'r aelodau i Country Manor i fwynhau cinio Nadolig ar ddechrau blwyddyn newydd. Cyfeiriodd at absenoldeb Mrs Mai Parry, oherwydd salwch. Cydymdeimlodd hefyd hefo Mrs Hilda Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn St. Helens, Glannau Mersi. Llongyfarchodd Bethan Wynn, Fferm Bodhyfryd, ar ei dyweddïad. Roedd pawb wedi mwynhau'r bwyd yn fawr a chafodd pawb anrheg o'r 'Bag Lwcus'.

Gydymdeimlwn yn ddwys fel aelodau a Mrs Hilda Williams. Ardro, Stad Croesywaun, sydd wedi colli ei chwaer yn St. Helens, Glannau Mersi.

LLWYDDIANNAU CERDDOROL. Estynnwn ein llongyfarchion i rai ifanc o'r pentref a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau chwarae piano.

I Lowri Elin Hughes, Pendas Eithin a lwyddodd yng ngradd 6; i Nia Williams, Plas Bodhyfryd, ar dderbyn teilyngdod yng ngradd 4; i Siôn Greasley, 7 Pant y Waun, ar dderbyn anrhydedd yng ngradd 2; i Gwion Thomas, Ty'n Llain ar dderbyn teilyngdod yng ngradd 2, ac i John Theophilus Evans, Fferm Regal, ar dderbyn anrhydedd yng ngradd 1. Mae'n amlwg eich bod yn ymarfer yn dda - daliwch ati!

DERBYN ANRHYDEDD. Mewn cyfarfod arbennig yn Ysgol Syr Hugh Owen i anrhydeddu disgyblion ddod a heddiw, derbyniodd Elin Hughes, Argoed, wobwr am ei gwaith yn yr Adran Gelf. Llongyfarchiadau i ti Elin ar dderbyn y wobwr.

CYFNOD O YMRODDIAD. Yn ddiweddar, mae'n siŵr fod Mr O.T. Jones, Bryn Gwenallt, a Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin, wedi bod yn hel meddyliau wrth edrych yn ôl ar eu cyfnod o ddeugain mlynedd yn flaenoriaid yng nghapeli y Waun.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Fiona Davies, Stad Tref Eilian ar gyrraedd ei phen-blwydd yn un ar hugain - dymuniadau gorau iti. Ffôn.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Aileen, merch Emrys a Rob, Bryn Mor, ar ei dyweddïad ag Emyr Gibson o Ddeiniolen.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Idris Owen, Stad Tyllen; Mrs Mair Parry, Stad Croesywaun; Mr Evan

Hughes, Bryn Golau a Mike Thomas, Dôl Erddi adref wedi iddynt orfod treulio cyfnod yn yr ysbty. Hyderwn eich bod yn teimlo'n well ar ôl cael dod adref.

Cafodd Mrs Mary Dvies ddod adref o'r ysbty am ychydig ddyddiau, ond yn anffodus gorfu iddi ddychwelyd i Ysbty Eryri. Anfonwn ein cofion cynnes atoch.

Yn dilyn cyfnod yn ysbtyai Gwynedd ac Eryri mae Mrs Catherine Williams wedi mynd i aros am gyfnod i gartref nyrsio Cerrig yr Afon.

Mae ei brawd, Mr Richard Owen, wedi bod am gyfnod yng nghartref Cerrig yr Afon hefyd ond wedi cael dod adref erbyn hyn. Anfonwn eich cofion atoch chwithau hefyd.

CYDYMDEIMLO Yn dawel yn ei chartref, bu farw Nancy Griffith. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i hunig chwaer, Mary, a'r teulu. a'i ffrindiau yn eu colled.

CYDYMDEIMLWN hefyd â Mrs Hilda Williams, Stad Croesywaun ar golli ei chwaer yn St. Helens, Glannau Mersi.

TALWRN Y BEIRDD. Bydd Tim Waunfawr yn herio Tim y Morwyr yng Nhalwrn y Beirdd ar nos Fawrth, 2 Mawrth am 7.15 yr hwyr yng Nghanolfan y Capel, Caeathro. Hefyd bydd Tim Caernarfon yn wynebu Tim y Moelwyn. Croeso i bawb i'r ornest eiriol. Dewch i gefnogi Tim Waunfawr a gweld Canolfan y Capel newydd yng Nghaeathro.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Trevor Bach, Bronallt, sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbty. Edrychwn ymlaen iti wella a dod yn ôl adref i gryfhau.

DIOLCH. Dymuna Anne, a theulu Treforfan ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl iawn. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Ty Gobaith yng Nghymru, a Hosbis Dewi Sant.

MARWOLAETH. Yn dawel yn ei chartref, Tan'rallt, Ceunant, Caernarfon bu farw Nancy Griffith yn 75 oed. Roedd yn ferch i'r diweddar Richard a Grace Griffith, brawd y diweddar John a chwaer anwylaf Mary ac Elwyn Parry, Cydymdeimlawn â'r teulu, Dylan, Sue, Arwel a Jayne a'u plant Cerys, Thomas, Mollie a Nia. Roedd yn uchel ei pharch yn yr ardal ac wastad yn barod ei chymwynas.

Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Croesywaun dan arweiniad y Parch Dr. R. Alun Evans, Caerffili. Cludwyd yr arch gan Dylan Parry, Arwel Griffith Parry, Tecwyn Evans, Emyr Evans, Alfie Jones a Tommy Georgeon. Cafwyd lluniaeth ar ôl yr angladd yng Ngwesty Snowdonia Parc.

V galarwyr oedd: Mary ac Elwyn, Dylan a Sue, Arwel a Jayne - Thomas a Mollie. Roedd eraill o'r teulu ynghyd â ffrindiau agos yn bresennol - rhy niferus i'w cofnodi.

Gwnaethpwyd y trefniadau gyda pharch a theimlad gan Gwilym Jones a'i Fab, Caernarfon. CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Mr a Mrs Wilf Jones, Trefflys yn eu profedigaeth o golli brawd Mr Jones yn ddiweddar.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Trwy amryfusedd gadawyd y canlynol allan o'r rhifyn diwethaf. Ymddiheurwn am hynny.

DYMUNA'R Cynghorydd Trefor Edwards Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl bentrefwyr Llanberis a Nant Peris. Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

DYMUNA Gareth Roberts, Glanrafon ddiolch am y caredigrwydd a ddangoswyd iddo tra yn Ysbty Gwynedd yn ddiweddar. Brysia wella, Gareth. FFRINDIAU'R EGLWYS.

Nos Wener, 9 Ionawr, cafwyd noswaith arbennig o dda yn Eglwys hynafol Sant Peris yng nghwmni Cass Meurig a Pigyn Clust. Diolch yn fawr iddynt.

Nos Wener, 6 Chwefror, bydd Côr Meibion Betws yn Rhos yn Eglwys Sant Peris, am un noson yn unig. Bydd yn cychwyn am 7.30 a chost y tocynnau yw £3.50, ar gael yn Ty'n Llan (01286 870284) neu gan Margaret Ellis (01286 871339).

NOSON LAWEN. Ar 20 Chwefror bydd Noson Lawen yn Ty'n Llan am 8.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

COFION ANNWYL at Theresa, sydd yn Ysbty Gwynedd ar hyn o bryd.

CAPEL REHOBOTH. Dymuna cynulleidfia y capel ddiolch i

Bwyllgor y Carnifal ac i Bwyllgor Ffair Nant am eu rhoddion hael. OEDFAON REHOBOTH am fis Chwefror, i gychwyn am 2.00 o'r gloch y pnawn.

1: Y Parchedig Trefor Jones, Caernarfon

8: Y Gweinidog

15: Y Arch. Ddr. Densil Morgan, Bangor

22: Mr Derec Jones, Llanberis

29: Y Gweinidog

Maw 7: Y Parchedig Reuben Roberts, Bontnewydd

Yn yr Ysgol Sul am 2.00 bydd y plant a'r bobl ifanc yn dysgu paentio, gwnio a gwneud gwaith lês dan arweiniad Anahit Hovhannissian, sy'n wreiddiol o wlad Armenia, a Maureen Murphy o Lanberis.

Am 3.00 bydd gemau yn y festri a chroeso i bawb ymuno am baned yn y gegin.

Bydd cytle i ddysgu rhai o ddawnsfeydd o wlad Armenia am 3.30p.m.

LLONGYFARCHIADAU i David John Pritchard, Llys Awel gynt, ar ennill y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth Barddoniaeth yn Iwerddon.

DYMUNA Melvyn Pritchard, Llys Awel, ddiolch o galon i bawb am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 65 yn ddiweddar.


Brian a Rita Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi):

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi): neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)


Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

O GYMRY I SELAND NEWYDD. Pob dymuniad da i Myfanwy a Dic, rhieni Gwenllian Parry (gynt o Benisarwaun), sydd wedi mynd i dreulio mis o wyliau hefo'r teulu yn Seland Newydd. Mwynhewch y tywydd braf a chofiwch ni at Gwenllian, Carl, Efa ac Iago.

YR YSGOL GYMUNED. Ar ddiwedd tymor y Nadolig, cynhaliwyd cystadleuaeth Hetiau Nadolig yn yr ysgol. Roedd y plant wedi paratoi eu hetiau adref, a daeth Anti Ann i'r ysgol i feirniadu. Gwaith anodd iawn oedd hyn, gan i'r safon fod mor uchel. O'r diwedd fe gafwyd penderfyniad gan gyhoeddi mai Megan Elisabeth oedd yn deilwng o'r wobwr gyntaf, sef tocyn am £5 o Siop Na'Nog. Ond yn wir, aethpwyd ymlaen i gael dau eilydd, sef Einion a Tal, ac yna ymlaen â ni eto i gael het fuddugol o bob blwyddyn ysgol. Ysbryd y Nadolig yn llifo ar y pryd, mae'n rhaid.

Diolch yn fawr i Anna am droi i mewn. Llongyfarchiadau i bob un a gafodd wobwr, a da iawn bob un a gymerodd ran yn hwy i cystadlu.

DIOLCH. Dymuna Mrs Annie Hughes, Tŷ Newydd, Cae Hywel, ddiolch o galon i'r theulu, cymdogion a ffrindiau am eu cefnogaeth pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 ym mis Rhagfyr.

DYMUNA Myfi, Gwyn a'r teulu oll, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a gafwyd ar farwolaeth eu brawd, Elwyn, o Ddeiniolen.


CARTREF NYRSIO. Dymuna Mr a Mrs Paul ddiolch i'r delynores, Gwenan Gibbard, Peter Valentine, y canwr, Brownies Waunfawr a phlant yr Ysgol Gymuned am eu cyfraniad clodwiw i'r preswylwyr yn ystod y Nadolig.

Diolchir hefyd i bawb am y rhoddion a'r anrhegion Nadolig ac am y gefnogaeth dda i'r raffl. Gwerthfawrogydd y gwasanaethau, yng ngofal y Ficer Ann Smitham a'r Parch Dafydd Lloyd Huws. Bu'n Wyl Nadolig hyfryd dros ben.

PENNAU BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Ann a Phyllis, sy'n dathlu penblwyddi arbennig ar yr un diwrnod, sef 20 Ionawr. Dymuna'r ddwy ddiolch i bawb am eu dymuniadau da ac am eu haelioni.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407



Megan (chwith), Tal (canol) ac Einion.



Enillwyr cystadleuaeth hetiau Nadolig Ysgol Penisarwaun.

DYMUNA Ann ddiolch o galon i Dafydd, Eurgain, Bedwyr ac Osian, ac i Ioan, Lisa a Sara, am y dathliad go arbennig nos Sadwrn. Taith esmwyth mewn 'Stretch Limo' gwyn yr holl ffordd i Gastell Deudaeth! Edrych ymlaen at Oed yr Addewid rwan. Diolch o galon.

YSGOL SUL BŌSRA. Mae'n braf mynd i'r Ysgol Sul bob Sul gan fod nifer dda o blant yn aelodau ffyddlon. Croesawyd tri aelod newydd, sef Ianto a Catrin a Nia. Gobeithio y gwelwn chi bob bore Sul. Bydd digon o weithgareddau ar eich cyfer. Dymuna Anti Ann ddiolch i'r Athrawon a'r plant am eu caredigrwydd ar achlysur pen-blwydd arbennig.

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Ionawr yw 1. Mrs P. Mathews, Freshwinds; 2. Mrs Annie Hughes, Tŷ Newydd; 3. Elinor Jones, Gwyrfa, 2 Bron y Waun.

Atgoffir chwi, aelodau ffyddlon, bod angen adnewyddu'r aelodaeth ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn. Cofier, os oes unrhyw un awydd ymaelodi â'r Clwb Cant, mae modd talu drwy Archeb Banc, neu 50c y mis, neu £6 y flwyddyn,

drwy aelod o'r Pwyllgor. Buasem yn hynod falch o gael aelodau newydd.

URDD ADRAN BENTREF.

Ar 7 Ionawr cafwyd noson ddifyr gyda'r aelodau yn sôn am eu hanrheg Nadolig gorau. Ar 14 Ionawr daeth P.C. Gwyn Parry, Brynrefail i siarad am 'Ddiogelwch' hefo'r plant. Roedd eu hymateb yn arbennig o aeddfed. Ar 21 Ionawr bu Ann Ifans yn sôn am Saint Cymru gan ganolbwyntio yn bennaf ar Santes Dwynwen. Cafwyd cwis a gwaith llaw am Santes y Cariadon.

EGLWYS SANTES HELEN. Fore Sul, 25 Ionawr derbyniwyd 15 o aelodau ifanc yn gyflawn aelodau o'r Eglwys. Gwasanaethpwyd gan yr Esgob, Y Gwir Barchedig Saunders Davies, Bangor. Dyma'r olaf iddo cyn ei ymddeoliad ym mis Chwefror. Dymunir pob bendith i'r aelodau ifanc ac ymddeoliad hapus i'r Esgob Saunders Davies.

GENEDIGAETH. Croeso mawr i Osian Pierce, mab bach cyntaf i Catrin a Dylan, (Bryn Rhydd gynt). Mae Elwyn ac Eleanor yn daid a nain am y tro cyntaf, ac wedi gwirioni.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Enillwyr Tynfa Misol mis Rhagfyr oedd: £40: (42) Peri Everet, 21 Tai Glangwna; £25: (09) Llŷr Morris Roberts, Penrhos; £15: (56) Alan Griffiths, Tafarn Bryn Gwna; £5: (18) Tim Lloyd, Tŷ Tyddyn Cae.

Roedd y canlynol yn llwyddiannus, gan ennill £10 yr un yn y Dynfa Nadolig:

(111) Jonny Morris, 7 Bryn y Gof; (32) Doreen Moore, Eryl; (88) Humphrey Jones, Y Glyn; (94) Reg Chambers Jones, Hafod Wen; (106) Mr Little, Mur Matthew; (77) Mair Roberts, Swŷ y Gwynt; (99) Gwyn Jones, Garth Isaf; (40) Arwel Griffiths, 4 Tai Glangwna; (28) Oliver Thomsa, Llwyn Celyn; (15) Mark Sykes, Penlon.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Eryl Jones, Bryn Mair ar ei phen-blwydd yn 40 ychydig cyn y Nadolig, ac i Sue Thomas, Tafarn Bryngwna ym mis Ionawr.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys hefo Vera Roberts, Erw Wen ar farwolaeth ei chwaer, Brenda, a oedd yn byw yn Nant Peris.

YSBYTY. Mae Mary 'Albert' Jones, Tai Glangwna yn yr ysbyty ar ôl syrthio yn ei chartref. Cofion ati.

CARTREF PRESWYL. Mae Eluned Griffiths, Tai Glangwna wedi ymgartrefu ym Mhlas Maesincla, Caernarfon.

MARWOLAETH. Bu farw Dafydd Jones, Carmel ar 30 Rhagfyr, ar ddiwedd yr hen flwyddyn. Cydymdeimlwn â'i deulu a chyfeillion ymhob man. Roedd o bob amser yn fodlon ymestyn cymorth i eraill.

TALWRN Y BEIRDD. Bydd y BBC yn recordio dwy ornest yng nghyffres radio Talwrn y Beirdd ar nos Fawrth, 2 Mawrth. Bydd tîm y Moelwyn yn herio Tîm Caernarfon, a Thîm Waunfawr yn erbyn Tîm y Manwyr. Croeso i bawb - pawb yn eu seddi erbyn 7.15 os gwelwch yn dda.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas y Cae Chwarae, Caeathro ar gyfer mis Ionawr oedd:

£40: (10) Dafydd Morris, Frondeg; £25: (12) Geraint a Zonia Bowen, Cefn Coed; £15: (106) Mur Matthew; £5: (47) Mike Davies, 7 Tai Glangwna.

Diolch i gefnogaeth parhaol yr hapchwaraewyr, roedd y Pwyllgor yn medru talu am barti Dolig y plant iau (a threuliau teithio Siôn Corn), prynu a goleuo'r goeden Dolig, cynnal y noson canu carolau (a chyfrannu at gostau Seindorf Iau Llanrug) ac anfon cerdyn Dolig a chyfraniad i bensiynwyr y fro.

LLONGYFARCHIADAU. Babi'r mis yw Owain Elwyn, mab i Jason a Sharon, brawd bach i Shanon, 6 Tai Glangwna. Mab yn y teulu!



Aelodau Urdd Adran Bentref Penisarwaun yn dangos eu cardiau Dydd Santes Dwynwen.

Diwrnod agored
Penrhos, Caeathro
Ionawr 31
10.30 - 4.30
Croeso i bawb

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd o Glwb Eryri yn y Fictoria, nos Wener, Ionawr 2, 2004.

Wedi croesawu'r aelodau a dymuno blwyddyn newydd dda i bawb, cyfeiriodd y Llywydd at farwolaeth ein cyn-drysorydd, Eurwyn Jones, ar Rhagfyr 27, 2003. Cydymdeimlwyd â'i weddw, Mrs Enid Jones, a gweddill y teulu a safodd yr aelodau mewn parch i'r diweddar aelod.

Mewn gair o deyrnged dywedodd John Huw Hughes mai anrhydedd oedd cael adnabod Eurwyn Jones fel cyfaill personol, rhiant a Rhcolwyr ar Ysgol Dolbadarn, a daeth i'w adnabod yn dda yn ystod cyfnod maith o weinyddu Cronfa R H Owen, gyda Eurwyn yn drysorydd trylwyr a gofalus. Disgrifiodd Eurwyn fel gŵr tawel, gŵr trwyadl a gŵr teyrngar i'r Clwb er ei benodi yn aelod yn 1978, ac i'r pentref a fu'n gartref iddo am dros 30 blynedd.

Wrth ychwanegu at y deyrnged, soniodd Bardd y noson, John Norman Davies iddo gael ei eni a'i fagu yn yr un pentref a'r bardd, sef Trawsfynydd.

Testun cerdd Norman oedd 'Cyfrifiaduron' a chafwyd disgrifiad byw o'r modd y gellid datblygu'r cyfrifiadur i gymeryd lle Bardd y Clwb - gallai odli wrth gyfansoddi, adrodd yn ôl a chywiro iaith - ond byddai angen bardd meidrol pan fyddai'r peiriant yn methu! Mac'n amlwg bod y beirniad cenedlaethol a ddisgrifiodd Norman fel 'bardd ifanc, addawol' yn agos i'w le!

Ifan Parry oedd Llywydd y noson a chyflwynodd y siaradwr, Gwynn Davies, drwy gyfeirio at ei gyfraniad mawr a gwerthfawr i'r gymdeithas yn lleol yn yr ardal yma a thrwy Gymru. Diolchodd iddo hefyd am ei gyfraniad dros llawer blwyddyn fel Bardd y Clwb. Gyda'i hiwmor a'i ffraethineb arferol, soniodd Gwynn am nifer o'i gyfeillion o fyd y gyfraith a fu'n ddylanwadau mawr arno dros y blyneddoddd. Aeth ymlaen i sôn am gymeriadau dylanwadol o faes anghenion addysgol arbennig a'r modd y ffurfiwyd polisïau

arloesol a phwysig yn y maes yma yng Nghymru, yn arbennig y Strategaeth Gymru Gyfan. Un gŵr a fu'n ddylanawd arbennig arno oedd Merfyn Turner, a fu farw yn 1991. Wedi cyfnod maith yn byw a gweithio yn Lloegr daeth i fyw mewn capel wedi ei addasu ger Rhuthun - er mwyn iddo 'gael marw mewn capel!' Disgrifwyd ef gan Dyfnallt Morgan yn ei lyfr *Cyfaill Carcharorion* fel y 'dyn tebycaf i Sant'. Rhoddodd Merfyn Turner ei oes i wasanaethu eraill, fel gweithiwr cymdeithasol ac ymwelydd carchardai, a sefydlodd gartref enwog i gyn-garcharorion o'r enw Norman House.

Wedi trafodaeth ddifrif; gyda hanesion o fyd y gyfraith a thrafodaeth ddiddorol am hawliau pobl gydag anghenion arbennig, diolchwyd i'r siaradwr am roi blas mor arbennig i'r cymeriadau gan Eurwyn Lloyd Evans.

Cyhoeddodd y llywydd, Geraint Elis, y bydd y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Chwefror 6, 2004, a'r siaradwr fydd Cledwyn Pritchard Jones, gyda Iolo Llywelyn yn llywyddu'r noson. Atgoffwyd yr aelodau o'r trefniadau ar gyfer y Cinio Gŵyl Dewi ar Mawrth y 5ed, gyda Elwyn Hughes, Bethel yn ŵr gwadd.

Cefnogwch ein Hysbysebwr

CWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partiön
rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Cangen Arfon Cymuned

Yn ddiweddar, penderfynodd canghennau Nantlle, Caernarfon a Gwaen Gynfi uno i greu cangen newydd gref, ac yn barod mae'n edyrch yn hynod o addawl.

Cynhaliwyd cyfarfod byrlymus o'r gangen newydd ar ddechrau'r flwyddyn, gyda siaradwyr gwadd a digon o amrywiaeth yn eu sgysiau.

Daeth O.P. Huws atom i sôn am ddatblygiadau cyffrous ym maes Tai Fforddiadwy yn Nyffryn Nantlle, ac awgrymu sut y gall cangen Arfon roi cymorth ymarferol i changu'r cynllun yma er mwyn amddiffyn ein cymunedau a chadw ein pobol ifanc yn eu cynefin.

Cawsom glywed hanes protestio myfyrwyr ifanc Aberystwyth o lygad y ffynnon gan Elena Mai, un o genod Dyffryn Nantlle sydd yng nghanol yr ymgyrchu i gael cysia trwy'r Gymraeg yno.

Wedyn clywsom y diweddara o fudiad Cymuned yn genedlaethol. Soniodd Aran Jones (prif weithredwr Cymuned dros dro, ac aelod gweithgar o gangen Caernarfon) am ddatblygiadau yng Ngheredigion yn ymgyrch Llais y Cardi - ymgyrch a fydd yn creu chwyldro democrataidd. Hefyd roedd newyddion syfrdanol am feichiogrwydd un o'n haelodau ar y pwyllgor gwaith! Aeth Aran ymlaen i amlinellu prosiectau ar y gweill a newidiadau mewn polisïau.

I gloi, cawsom drafodaeth

fywiog am ein cangen leol dan gadeiryddiaeth Meical Roberts, Llanllyfni. Ew, mae'n argoeli'n dda, gyda rhaglen ddifyr o weithgareddau amrywiol, adloniant, picedu, cymdeithasu, arlunio, sgwennu, ymgyrchu - yn wir, rhywbeth at ddant pawb sy'n malio am ddyfodol ein cymunedau, diwylliant a'n hiaith.

Y cwestiwn felly yw. Wyt ti'n aelod o Cymuned mewn enw yn unig - neu wyt ti isio bod yn rhan o'r bwrlwm sydd yn dy gangen leol?

Ty'd draw i'r cyfarfod nesa - nos Fercher, 4 Chwefror o 7-9 o'r gloch yn adeilad yr Institiwt Caernarfon - ac ymuno yn yr her a'r hwyll!

Am ffwy o fanylion, neu i ymaelodi, cysylltwch â Lari (881788) neu Jina (650015).

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON VW BLODAU

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

*Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon
at bob achlysur*

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tiniw, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PQ

(01286) 673190



DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

ADREF O'R YSBYTY. Yr ydym yn falch o ddeall fod Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch wedi cael dod adref o Ysbyty Gwynedd ac yn gwella. Bu raid iddi fynd i'r ysbyty ddechrau'r mis. Gobeithio y bydd yn dal i wella ac y caiff fwyndau y flwyddyn newydd. Brysiwch wella, Mrs Griffith.

CROESO ADREF. Estynnwn groeso cynnes iawn yn ôl i'r ardal i Delwen Haf a David, ei gŵr. Y ddau ar ôl priodi wedi mynd i fyw i Ynys Môn, ond erbyn hyn wedi dod adref i Bron Eilian i fyw hefo Derek a Dilys (Dad a Mam). Nid yw Derek a Dilys yn rhy dda eu iechyd ar hyn o bryd, a gobeithiwn am well iechyd i'r ddau i'r dyfodol.

Hefyd yr ydym yn deall i David gael damwain ar ôl dod i'r ardal, felly gobeithio ei fod yntau yn dal i wella ac y cânt fwyndau llawer blwyddyn hapus hefo'i gilydd fel teulu. Pob bendith.

CYDYMDEIMLAD. Yn y rhifyn olaf o'r Eco yr oeddwn yn dymuno gwellhad buan i Mr John G. Jones, 9 Tan y Foel, ond yn anffodus nid felly y bu, gan i John farw yn yr ysbyty.

Bu ei angladd ar 24 Rhagfyr. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Cefn y Waun, dan ofal y Parch John Pritchard, lle yr oedd John yn flaenor ffyddlon. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent Macpela, Deiniolen hefo Jennifer, ei ferch, a fu farw drwy ddamwain bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Yn ôl geiriau ei wraig, Sylvia, mae'r ddau hefo'i gilydd yn awr. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Sylvia, a'r hogiau a'r teulu i gyd yn eu galar a'u profedigaeth. Byddwn yn gweld ei eisau yn y capel.

GWELLHAD BUAN. Mae Mrs. Nellie V. Pritchard, Pen Dyffryn wedi cael ei symud o Ysbyty Llandudno i Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Yr wyf yn sicrhau bod yn anfon ein cofion ati ac yn gobeithio gwell iechyd iddi hithau yn y flwyddyn newydd.

BLWYDDYN NEWYDD DDA. Ar ddechrau blwyddyn newydd, dymunaf Flwyddyn Newydd Dda i bawb yn yr ardal, a chan fod dipyn yn cwyno gartref, gobeithio am flwyddyn well iddynt i gyd.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

LLONGYFARCHIADAU i Arwyn, Isfryn ar ddatlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Hefyd i Ben, Bod Iestyn ar ddatlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

ADREF DROS Y NADOLIG. Cafodd Mrs Dorothy Jones, Fron Gader anrheg Nadolig arbennig iawn pan ddaeth ei merch, Alison, adref o America yn ddiamrybod iddi i dreulio Gŵyl y Nadolig gyda'r teulu.

Hefyd daeth Siân, merch Brian ac Olwen Jones, Cefn Bwlch, adref dros yr ŵyl. Erbyn hyn mae'r ddwy yn ôl yn America. Gobeithio y cawn eu gweld yn fuan eto.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, am fod yn hen nain am y tro cyntaf. Ganwyd tripledi i'w hwyres, Delyth, sef Sophie,

Chloe ac Ellen, a chafwyd Nadolig arbennig iawn gan y teulu pan ddaeth y tair fach adref gyda'i gilydd ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Cailean Dafydd, i'w mab, Arwel a Norah, ar Ynys Skye, Yr Alban.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Peggy Rowlands, Talafon, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn Henllan.

CAPEL Y TABERNACL. Daeth cynulliad da i'r Gwasanaeth Garolau a gynhaliwyd nos Sul, 21 Rhagfyr, yng nghwmni Côr y Waunfawr. Dymuna swyddogion y capel ddiolch yn ddiffuant i'r Côr ac i bawb am eu cefnogaeth.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Trwy amryfusedd gadawyd y canlynol allan o'r rhifyn diwethaf. Ymddiheurwn am hynny.

DYMUNA'R Cyngorydd Trefor Edwards Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl bentrefwyr Llanberis a Nant Peris. Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

DYMUNA John, Madge, Rhiannon a'r plant a theulu y diweddar David Jones, (Tŷ Ucha'r Ffordd gynt), ddiolch o galon i'w cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mab a thad annwyl iawn.

Diolch am y rhoddion hael i'w blant ac i Genhadaeth y Morwyr. Diolch hefyd i'r Parchedig Nia Wyn Roberts am ei gwasanaeth ac i Gwilym Jones a'i Fab am y trefniadau trylwyr.

DIOLCH O GALON. Hoffai Alwen Jones, Angorfa, Coed y Glyn, ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod cyfnod ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac wedi dod adref.

Y GYMDEITHAS. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr cafwyd Noson Nadoligaidd o Garolau a darlenniadau dan ofal y Parchedig John Pritchard, gyda Gareth Jones yn cyfeillio.

Ar 6 Ionawr cafwyd Cyfarfod

Gweddi dan arweiniad y Gweinidog.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Capel Coch ar 3 Mawrth, am 7 o'r gloch, gyda Berwyn Owen (Berwyn a'i Bils) fel gŵr gwadd. **CANGEN ELUSENNOL LLANBERIS** Drwy garedigrwydd Danny a Nerys Roberts, cynhaliwyd Boreau Coffi yn Y Bistro yn ystod y flwyddyn 2003, er budd gwahanol elusennau.

Llwyddwyd i godi'r swm o £1,028.50, ac mae Delyth a Mattie Hughes, y trefnyddion yn ddiolchgar dros ben am y gefnogaeth a gaed i hyrwyddo achosion teilwng.

Cynhelir y Bore Coffi nesaf dydd Gwener, 6 Chwefror o 10.30 hyd hanner dydd, ac aiff yr elw tuag at Ras y Wyddfa.

RUBLES

Fuoch chi yn Rwsia i weld y pêl-droed? Sgynnoch chi Rubles ar ôl?

Mae *Chernobyl Children's Lifeline* (Caernarfon 650168) yn mynd a loriau o nwyddau allan yno ac yn dod a phlant - o wyth oed i'r arddegau - drosodd yma ar wyliau.

Mi fedrwrch chi helpu trwy roi eich hen rubles iddynt.

IEUAN WILLIAMS

Glanffwrdd
DEINIOLEN
(01286) 870484

Bysiau o 12 i 53 sedd

Teithiau Lleol a Thramor

Gwaith Contract

► Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



ORIEL CWM Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwireiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



UN FUNUD FACH DYN Y DRETH

Fedrai neb egluro pam. Wyddai neb sut roedd y peth yn bosib. Doedd neb wedi meddwl bod unrhyw beth o'i le. Yn Japan, yn un o swyddfeydd Y Dreth, roedd un o'r gweithwyr yn eistedd wrth ei ddesg. Doedd neb yn ei styrbio; neb yn siarad ag o; neb yn cynnig panad iddo. Doedd yntau ddim yn codi o'i gadair; doedd o ddim hyd yn oed yn mynd am ginio. Roedd o'n brysur. Roedd pawb mor brysur: yn rhy brysur i sylwi fod y dyn wedi marw ers deuddydd!

Digwyddodd hyn yr wythnos diwethaf. Mae'r stori ryfeddol hon yn wir bob gair. Roedd y dyn wedi marw a neb wedi sylweddoli hynny. Mewn swyddfa brysur ni sylweddolodd yr un o'i gydweithwyr ei fod wedi marw, a buont yn gweithio o'i gwmpas am ddau ddiwrnod cyfan.

Er mor anhygoel y stori mae'n bosibl bod yr un peth yn digwydd yn aml yn ein plith ninnau fel crefyddwyr. Gall eglwysi fod yn farw a neb yn sylweddoli hynny. Gall ein crefydd fod yn farw a ninnau heb weld hynny. Gallwn fod yn hynod o brysur, yn rhuthro fan hyn a fan draw, yn gwneud hyn a'r llall, yn cynnal ein gweithgareddau a'n hoedfaon. Ond mae'n bosibl i ni fod yn

brysur gyda phethau crefyddol, fel eglwysi ac fel unigolion, â ninnau mewn gwirionedd yn gwbl farw yn ysbrydol. Gallwn wneud pob math o bethau crefyddol heb berthynas real â Duw, a heb gariad at yr Arglwydd Iesu Grist, a heb wir ofal am ein gilydd ac am les yr Efengyl. Calon gwir grefydd yw'r ffydd bersonol a bywiol yn Nuw trwy Iesu Grist. Heb honno, mae'r cyfan yn farw. A'r drasiedi fawr yw ein bod yn aml yn dal ymlaen heb sylweddoli bod unrhyw beth o'i le.

Pan ddeallodd ei gydweithwyr bod y dyn wedi marw doedd dim y gallent ei wneud. Roedd yn rhy hwyr i'w helpu. Ond mae'n wahanol arnom ni. Er gwaetha'r holl farweidd-dra sydd ynom, gall y Duw byw ein bywhau fel unigolion ac fel eglwysi. Dyna mae'n hoffi ei wneud. Ac eleni, â ninnau'n cofio'r Diwygiad a brofodd ein gwlad ganrif gyfan yn ôl, gweddiwn y bydd y Brenin Mawr yn gwneud yr union beth hwnnw. A dechrau'r bywhau nerthol a melys fydd y sylweddoliad anghysurus a phoenus ein bod yn farw yn y lle cyntaf.

'Bywha dy waith, O Arglwydd mawr yn ein calonnau ninnau nawr.'

JOHN PRITCHARD

CÔR ERYRI

I gloi gweithgareddau'r flwyddyn, trefnwyd Cyngerdd Nadolig ar nos Sul, 14 Rhagfyr, 2003, yng Nghapel Cysegr, Bethel. Roedd yn braf gweld y Capel yn llawn a chafodd y gynulleidfa noson i'w chofio yng nghwmni Meibion Llywarch, Meirion MacIntyre Huws, Gwenan Gibbard, Côr Glychau'r Grug, Susan Williams - a Chôr Eryri ei hun wrth gwrs. Diolch i bawb a gymerodd ran ac yn arbennig i Swyddogion a Gofalwyr Capel Cysegr, Bethel, am eu cymorth a'u

cydwethrediad. Uchafbwynt y noson oedd clywed y tri chôr yn ymuno i ganu'r gân hyfryd 'Hafan Gobaith' ar y diwedd, a llwyddwyd i godi swm teilwng iawn tuag at Apêl Tŷ Gobaith - mae Manon, ein Trysorydd, yn dal i gyfrif!

Os oes gennych awydd ymuno â'r Côr yn y flwyddyn newydd, beth am ffonio'r arweinydd Siân Wheyway am sgwrs ar 01286 872001. Rydym yn griw o genod hwyliog iawn sydd bob amser yn falch o groesawu wynebau newydd!

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olaw Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Wythnos Cymraeg yn Gyntaf 1-7 Mawrth 2004

Mae'n bleser gan Menter Iaith Gwynedd dynnu eich sylw at ymgyrch gyffrous fydd yn dechrau ar Ddydd Gŵyl Dewi 2004, ac yn para am wythnos gyfan. Ymgyrch yw hi i berswadio'r cyhoedd i ddefnyddio mwy o'r iaith Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, gan eu hannog i ddefnyddio

CYMRAEG YN GYNTAF

Mae Bwrdd yr iaith Gymraeg, mewn partneriaeth â Mentrau Iaith Cymru, yn targedu nifer o ardaloedd penodol yng Nghymru fel rhan o'r ymgyrch, ac mae Caernarfon yn un ohonynt. Bydd y Bwrdd yn darparu nifer o adnoddau 'CYMRAEG YN GYNTAF'

am ddim, gan gynnwys posteri, sticeri, baneri, balŵns, arwyddion cownter a beiros. Hefyd i dynnu gymaint o sylw ag sy'n bosibl, byddwn ni'n hysbysebu ar frysus lleol, yn trefnu digwyddiadau lleol ac citemau o ddiddordeb yn y wasg a'r cyfryngau. Rydym ni'n gobcithio creu tipyn o fwrlwm yn ystod yr wythnos!

Eisocs mac gweithgor lleol wedi ei sefydlu i drefnu'r ymgyrch, a chydach cefnogaeth chi, gallwn cdrych ymlaen at ymgyrch gyffrous fydd yn

arwain at gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghaernarfon a'r ardal.

Os hoffech chi wybodaeth bellach ynglŷn â'r ymgyrch, neu fwy o fanylion am y digwyddiadau yn ystod yr wythnos, cysylltwch â naill ai Catrin Jones (Swyddog Maes Arfon) ar 01286 674111 neu Carys Dafydd (Swyddog Gwyliu Cymraeg) ar 01286 674112.

Côr Lleisiau Lliwedd

Nos Fawrth, 13 Ionawr, cyfarfu pwyllgor y côr i ethol swyddogion ac i greu rhaglen ar gyfer y tymor i ddod.

Os am wybodaeth am wasanaeth y côr ar gyfer cyngherddau, nosweithiau llawen, cymdeithasau, ayyb, cysyllter â Dilys Mai Roberts ar (01286) 871758 neu Gwyneth Parry (01286) 872352.

Dechrau Blwyddyn

Rheidrwydd ar ddechrau blwyddyn - yw gosod

I'n gwysu i'w dilyn.

A darfod ger rhyw derfyn Llywio gwydd, pob dydd wna dyn.

R.L.L.J.

www.s4c.co.uk

EICH GWAHODDIAD

Dewch i drafod S4C a darlledu yng Nghymru yng nghwmni Eian Closs Stephens, Cadeirydd S4C, a Huw Jones, Prif Weithredwr S4C

NOSON GWYLLWYR S4C

NOS IAU, 26 CHWEFOR 2004, AM 7.00PM
Y MYNYDD GWEFUR, LLANBERIS

CROESO CYNNES I BAWB
DARPERIR OFFER CYFIEITHU

S4C

A wyddoch chi?

Mae Eifion Roberts, Sŵn y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis yn chwilio am wybodaeth am ddau lun sydd yn ei feddiant.


Tynnwyd y llun cyntaf o flaen Glan Eilian (Spar heddiw), Llanberis, cyn 1910. Tybia mai llun priodas ydyw, oherwydd y blodau ar ddilladau'r bobl a'r fasedged flodau ar y llawr.

Efallai eich bod yn gwybod pwy yw'r gweinidog neu yn adnabod llun eich cyn-deidiau neu gyn-neiniau.

Mae'r ail lun wedi ei dynnu gan Robert John Jones, Siop Bapur, Llanberis. Siop Reynolds, sydd ar safle'r Siop Bapur yn Alexandria House heddiw.

Bu Robert John yn rhedeg y Siop Bapur o'r dauddegau i chwedegau'r ganrif ddiwethaf, gyda'i chwaer yn ei gynorthwyo ar ddiwedd ei yrfa. Gan nad oedd y ffotograffwyr lleol yn crwydro ymhell i dynnu lluniau, ac mai waliau cerrig sydd o amgylch y tŷ, tybia Eifion fod y llun wedi ei dynnu yn ardal yr Eco.

Os oes gennych unrhyw wybodaeth am y lluniau, buasai Eifion yn falch iawn o glywed gennych.



Y Bistro LLANBERIS Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Ty'n Llan Nant Peris

Cinio
dydd Sul
a
Byrbrydau



Bwydydd
Cymreig

Jim ac Anne Cumberton (01286) 870 284

Croeso cynnes bob amser



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

Gŵyl Ddrama Ardudwy 2004

Ym mis Chwefror 2004 cynhelir cystadleuaeth actio drama fer yn Theatr Ardudwy, Harlech. Bydd yr ŵyl arbennig hon a drefnir ar y cyd rhwng Theatr Ardudwy a Chymdeithas Ddrama Cymru yn ddathliad o'r talent drama y mae'r ardal yn enwog amdano.

Fe fydd y beirniaid yn penderfynu pwy fydd yn cipio'r tlws hardd am y cynhyrchiad gorau a hefyd y tlws am y cynhyrchiad Cymraeg a Saesneg gorau.

Mae'n bosibl hefyd y daw gwahoddiad i'r enillwyr gynrychioli Gwynedd ym mhrawf terfynol Cymru.

Mae'r ŵyl hon yn cynnig cyfle gwyh i'r cyhoedd fwynhau'r dalent a'r gwaith arbennig a wneir gan gwmnïau drama amatur Cymru.

Dewch i gefnogi! Dewch i fwynhau! Dewch i gystadlu! Nodwch y dyddiadau pwysig yn eich dyddiaduron:

25, 26 a 27 Chwefror 2004
Am fwy o fanylion, cysylltwch â Mici Plwm, Cyfarwyddwr, Theatr Ardudwy, Harlech.
Ffôn: (01766) 780667

Drama'r Geni Eglwys Crist, Llandinorwig



Plant Ysgol Sul Eglwys Crist, Llandinorwig a gymerodd ran yn Nrama'r Geni, prynhawn Sul cyn y Nadolig.



Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:


- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626

neu 01341 422575

ymholiadau@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com



Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271



CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon
Ceunant (650799)

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Evan a Helen Parry, Morwel ar ddod yn daid ac yn nain unwaith eto. - ganwyd Ffion Enlli - merch fach i Einir ac Euros Davies ar Ragfyr yr 11eg.

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Anwen Jones, Gwelfor a'r teulu yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

CROESO ADREF i Siân Jones Rhos y Grug, Ceunant o Awstralia - mae'n braf iawn dy weld di'n ôl yma yng Ngheunant. MARWOLAETH Ar yr 8fed o Ionawr bu farw Nancy Griffith, Tan Rallt, Ceunant - anfonwn ein cydymdeimlad at Mary ac Elwyn Parry a'r teulu yn eu profedigaeth.

ATEBION Y CWIS PÊL-DROED

a) Bobby Moore; b) Sampdoria;
c) 15,000; ch) 1964; d) Gwlad Pwyl, Lloegr, Azerbaijan, Gogledd Iwerddon.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

STEPHEN JONES

† Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976


Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2004

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 4 Mawrth, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig i'r papurau bro i gyd drwy Gymru. Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £30 i'r enillydd, yn ogystal â £150 i'r papur bro fydd yn ysgogi'r ymateb gorau. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd.



Anfonwch y croesair at:
Croesair Papur Bro,
Cyngor Llyfrau Cymru,
Castell Brychan,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 2JB
erbyn 16 Ebrill 2004.
Gofalwch nodi eich
enw a'ch cyfeiriad ac
enw'ch papur bro lleol.



Gofiwch; un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

AR DRAWS

- 3 Colofnau Angharad Tomos yn yr *Herald* (1, 3, 2, 5)
- 6 Straeon cefnogwyr tîm pêl-droed Cymru gan Dylan Llywelyn (3)
- 7 UENSNIN (anag.) awdur *Historia Brittonum* (7)
- 9 Enw cyntaf awdur *Dial yr Hanner Brawd* (5)
- 11 Cyfrol am hanes barddoniaeth Gymraeg gan Gwyn Thomas, Y _____ (9, 6)
- 14 Tros _____, cyfrol am hanes Cymry Llundain gan Meurig Owen (1, 4)
- 16 Fel ambell rwyddiad o Wasg Gregynog (4)
- 17 Mochyn _____, anifail y sonnir amdano yn un o gyfresi anifeiliaid anywes Gwasg Gomer (4)
- 19 Enw cyntaf 'Mam' y cymeriadau adnabyddus Noddy a Plismon Plod (4)
- 20 Yr _____ Lawen, blodeugerdd o ganu ysgafn a doniol (4)
- 21 Cadw dy Ffydd, _____, nofel gan Owen Martell (5)
- 24 a 28 i lawr
Hunangofiant Mici Plwm (6, 4, 1, 3, 1, 3)
- 27 Y wasg a gyhoeddodd gyfrol Gwobr Goffa Daniel Owen eleni (5)
- 29 _____ Gymreig, papur newydd wythnosol radicalaidd a unwyd â'r *Herald Cymraeg* ym 1937 (1, 6)
- 31 Fely _____, nofel gan Elgan Philip Davies (3)
- 32 Y ffurf Gymraeg ar enw cyfansoddwr alaw *Hen Wlad fy Nhadau* (4, 2, 5)

I LAWYR

- 1 Plu yn y _____, cyfrol am waith yr arlunydd bywyd gwyllt Gareth Parry (5)
- 2 Enw'r ferch gyntaf i fod yn Fardd Plant Cymru (5)
- 4 Ni'n _____, hunangofiant Eirwen Gwynn (3)
- 5 Siâp Pry Bach Mary Vaughan Jones (3)
- 8 Casgliad o storïau byrion gan E. Tegla Davies (4)
- 9 Tir yr _____, hanes New Inn a Gwyddgrug, Sir Gaerfyrddin, gan D. G. Lloyd Hughes (4)
- 10 Daeth llyfr newydd Dudley o'r wasg hon (5)
- 12 Enw cyntaf awdur *Digon i'r Diwrnod*, cyfrol o fyfyrddodau dyddiol (5)
- 13 _____ a *Loli*, nofel am blant gan Kate Roberts (5)
- 15 Enw cyntaf awdur *The Welsh Extremist* (3)
- 16 Un o hoff fesurau Dafydd ap Gwilym (5)
- 17 _____ y *Nos*, nofel gan Geraint V. Jones (3)
- 18 _____ *Heno*, nofel gan Kate Roberts (5)
- 19 MGDYE (anag.) _____ *Dinbych*, cerdd o ddiwedd y nawfed ganrif sy'n moliannu caer Dinbych-y-pysgod (5)
- 22 Crefftwr doliau Gwenlyn Parry (4)
- 23 'Pam y caiff bwystfilod rheibus Dorri'r _____ mân i lawr?' Wm. Wms. (4)
- 25 Bardd *Mewn Dau Gae* (5)
- 26 Pan *Ddaw* _____, trefniannau o un ar ddeg o glasuron y byd pop Cymraeg gan Alun Guy (5)
- 28 Gweler 24 ar draws.
- 30 *Dated* _____, addasiad Emily Huws o nofel Penny Kline (3)

ENW
CYFEIRIAD
ENW'R PAPUR BRO

Gall chwilio gwefan
www.gwales.com
eich helpu
gyda'r atebion

gwales.com



CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Band Ieuenctid Deiniolen



Band Ieuenctid Deiniolen yn mwynhau eu hunain yn yr Hwylfan, Caernarfon.

Heb os, asgwrn cefn Band Deiniolen yw ei Seindorf Ieuenctid gref.

Y mae Band Deiniolen yn gallu ymfalchio yn eu deg ar hugain o aelodau ifanc lleol, hynod frwdfrydig, ac eleni yr ydym yn falch o groesawu wyth o aelodau newydd o Rhiwlas. Bu'r criw ifanc yn torchi llewys dros Wyl y Nadolig i gasglu arian i goffrau eu band.

Ddydd Llun, yr ail ar hugain o Ragfyr, treuliwyd y prynhawn yn diddori cwsmeriaid Safeways ym Mangor, yn chwarae amrywiol garolau, a llwyddwyd i gasglu £130 o bunnoedd.

Cafwyd gwyliau haeddiannol dros yr ŵyl, ond ni chafwyd fawr o gyfle i laesu dwylo, gan fod Safeway yn galw unwaith yn rhagor, ond gorchwyl wahanol y tro hwn. O ddeg y bore hyd chwedd y prynhawn bu'r criw wrthi fel lladd nadroedd yn pacio bagiau cwsmeriaid

Safeway yng Nghaernarfon. Yr oedd hi'n werth yr holl chwysu oherwydd llwyddwyd i gasglu £616 o bunnoedd.

Dydd Mawrth y nawfed ar hugain o Ragfyr, a ninnau ar drothwy blwyddyn newydd, yr oedd hi'n braf cael cau pen y mwdwl ar weithgareddau'r Nadolig a blwyddyn hynod lwyddiannus i'r band. Nid oedd yr un corn na'r un garol i'w chlywed oherwydd yr oedd y deg ar hugain yn mwynhau eu hunain yn y parti! Bu'r criw yn hel eu boliau a mwynhau yn yr Hwylfan yng Nghaernarfon. Cafwyd amser gwerth chweil, ac roedd y wên fawr lydan ar wynebau'r deg ar hugain yn brawf o hynny.

Dymuna'r Seindorf ddiolch o galon i'r ieuenctid am eu gwaith caled, ond ni fuasai'r Nadolig wedi bod yn llwyddiant iddynt heb gefnogaeth a pharodrwydd y rhieni. Diolch o galon.

Mwy o luniau Parti Pendalar Ysgol Brynrefail



Laura yn cael digon o hwyl yng nghwmni un o'r plant.



Huw a Ceri yn straffaglu gyda'r holl anrhegion.

LLANRUG atodiad

BRYSIWCH WELLA. Dymuniadau gorau i Emyr Jones (Plymar), 44 Glanffynnon. Gobeithio y cewch wellhad buan wedi'r llawdriniaeth sydyn yn ddiweddar. Da deall eich bod adref.

MARWOLAETH. Bu farw Mrs Grace Griffith, Bontnewydd, ar 31 Rhagfyr 2003. Anfonwn ein cydymdeimlad at Colin, Wyn ag Ann, y plant a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

PEN-BLWYDD HAPUS. Llongyfarchiadau mawr i Michael (Kent) ar dy ben-blwydd yn 50 oed. Mwynhewch y dathlu.

Mewn busnes yn ardal Eco'r Wyddfa?

Y cam cyntaf i gyrraedd eich cwsmer yn ardaloedd

- Bethel
- Cwm-y-glo
- Dinorwig
- Llanrug
- Penisarwaun
- Caeathro
- Deiniolen
- Llanberis
- Nant Peris
- Waunfawr

a threfi a phentrefi cyfagos yw ffonio:

John Roberts
(01286) 675605

neu e-bostio
johnroberts@prjr.wales.com
Mae'n gyfle rhy dda i'w golli!

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AG ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870840**


Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

CROESAIR CHWEFROR



Mae 43 ar draws, 13 i lawr, 5 ar draws 1 i lawr yn cynnwys tri 24 i lawr arbennig. Dyma'r atebion y dylid eu cynnwys ble y rhoir rhif yn unig fel cliw.

Ar Draws:

1. Sedd Efta'n mynd yn ddarnau, ond mae'n dal yn sedd er hynny! (8)
9. Ffluo! (7)
10. Y ffalster sy'n y wobwr a dalwyd i'r enillydd (4)
11. Tymor y braster mclys? (4)
14. Y wcr o wld Sais yn dychwelyd? 'Sgersli bilif! (3)
15. Yr hyn a geir wrth gymysgu carbon a haearn (3)
16. Cario gwrtaith i'r cae (5)
19. Macs hen bobol, yn ôl y Cofi (7)
20. Pridd yng nghanol milltiroedd o anialwch (3)
21. Galar y fonesig wael? (4)
23. Creawdwr llenyddiaeth (5)
25. Drwg o'r drais ffrwydrol (5)
27. Darn hir cul o ledr (5)
28. O ffurf cylch neu bêl (4)
29. Gwneud yn gaeedig (3)
30. Peth hyfryd i edrych arno (7)
33. Drosog (5)
34. Mam Dewi o Drefnyddion? (3)
35. Hylif i ysgrifennu yn y llyfr pinc a gwyn? (3)
38. 25 (4)
40. Trio newid, newid cyfiriad! (4)
41. V rhai sy'n methu gweld (7)
43. Darn blasus o gig eidion, o ran uchaf y llwyn (7)

I lawr:


2. Tafell o fara (7)
3. Beiddgar a digywilydd (4)
4. Cerbyd i gario nwyddau o Fanceinion (3)
5. Un rhan o bedair (7)
6. Yr hyn sydd gan 12 i lawr i'w defnyddio (3)
7. 480 o dudalennau!! (3)
8. Genau'r afon (4)
12. Rhai sydd â hawl i bleidleisio (7)
15. Dibwys neu anenwog (2-3)
17. 24 (7)
18. Trais yn dychwelyd fel map o'r môr (5)
19. Neidio a dawnsio (7)
20. Adeiladau uchel ym Mhant yr Aur (5)
22. Nia Ben Aur aeth â chalon hwn! (5)
26. Gwraig front, anniben (5)
29. Yn yr iard goed cei bren i wneud trawst!! (7)
31. Ie, mewn dillad wedi dod o un arall (7)
32. Ystafell y mynach a'r carcharor (3)
34. 29 (4)
36. Tyfiant niweidiol (5)
37. 7 i lawr a fi yn Saesneg yn cael hwyll! (4)
38. Ffrwythau bach duon (3)
39. Ebychiad yn y tawelwch (3)
41. Rhifol benywaidd yn y deg cyntaf (3)

Fe hoffwn ddiolch i'r rhai ohonoch a ychwanegodd gyfarchion y tymor gyda'ch atebion, a blwyddyn newydd dda unwaith eto i bob un ohonoch chitha'

Derbyniais atebion i groesair Rhagfyr gan Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Ceridwen

Williams a Tegid Roberts, Llanrug; Jennie Williams ac M. P. Jones, Clynnog; Olwen Owen, Moreen Lennon, Vera Griffiths a Nan Owen, Llanberis; Olwen Jones, Bethel; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Gwen Griffith, Deiniolen; Megan Morris, Dinorwig; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; E. E. Jones, Rhoshirwaun; N. Hughes, Cwm y Glo; Enid Jones, Talsarn; D. B. Williams ac Eluned Jones, Trefor; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Nansi Davies, Rhuthun; Pat Owen, Caerfyrddin; Rosemary Williams, Mynydd Llandegai; Alvona Jones, Prestatyn; E. P. Jones, Penrhyndeudraeth; H. O. Hughes, Pwllheli a Dilys Pritchard-Jones, Abererch.

Enillydd y mis ydi Olwen Jones, 5, Stad Eryri, Bethel, Caernarfon LL55 1BX
Llongyfarchiada' a £5 i chi.



Ar ôl cwblhau croesair Chweffor, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, 5, Bryn Eglwys, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn Chweffor 16.

RHODDION

£10.00: Dylan Owen, 18 Hafan Elan, Llanrug; Mr John Morris, Rhiwen, Deiniolen; Mrs Edna Jones, 12 Maes Gwylfa, Deiniolen; Madge, John, Rhiannon a'r plant, Llanberis; Rachel Thomas, Min y Rhos, Llanrug; Er cof am Nancy Griffith; Teulu Trevorfan, Waunfawr er cof am frawd Anne; Bob ac Eileen Roberts, Northampton; Haf Thomas, Buarthau, Llanrug.

£5: Mrs Sylvia Jones, 9 Tanyfoel, Deiniolen; Mr Gwynfryn Thomas, Rock Terrace, Llanberis; Alwen Jones, Angorfa, Coed y Glyn, Llanberis; Ellen, Gwynfor, Meleri a Iolo, Drws y Coed, Bethel; Mrs Mary M. Jones, 35 Bro Rhos, Bethel; Mrs Annie Hughes, Tŷ Newydd, Cae Hywel, Penisarwaun; Teulu Gwynfi, Penisarwaun; Y Cyngorydd Trefor Edwards, Llanberis; Eirlys a'r teulu, Berllan, Llanrug; Dick a Hefina Jones, 8 Rhos Rug, Llanrug; Mrs Joan Williams, Llwyfor, Llanrug; Bet Jones, Lyndale, Llanrug; Arwyn Jones, Isfryn, Cwm-y-glo; Delyth Roberts, 16 Maes Gwylfa, Clwt-y-Bont, Deiniolen; John ac Eifion Evans, Pen Parc, Bethel; Joyce ac Edward Rees Jones, Tregarth; Arwyn Jones, Isfryn, Cwm-y-glo; Delyth Roberts, 16 Maes Gwylfa, Clwt-y-bont.

£3: Beti Roberts, 25 Rhydfadog, Deiniolen.

Pa lyfr yw eich hoff lyfr Cymraeg?

Nodwch eich dewis yn eich llyfrgell neu ar ein safle We

www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell

cyn Mawrth 1af, 2004

(cyhoeddir y canlyniad ar Ddiwrnod y Llyfr, Mawrth 4ydd)

Cynigir gwobr o £50 i'r enwebiad gorau



Gwasanaeth Llyfrgell
a Gwybodaeth Gwynedd



CHWARAEON

Cael 'Hwyl' Arni



Mae ymchwil twristaidd diweddar yn awgrymu fod glannau gogledd Cymru ymysg rhai o fannau mwyaf poblogaidd Prydain. Heb os, yr ydym ni, y brodorion, yn tueddu i gymryd yr adnoddau naturiol yma yn ganiataol. Er enghraifft, faint o bobl sy'n byw yng ngolwg yr Wyddfa fu ar y copa?

Un ganolfan sydd wedi gwneud defnydd o'r adnoddau yw Canolfan Plas Menai, sydd erbyn hyn yn cael ei gydnabod fel un o'r canolfannau hyfforddi pwysicaf ym myd chwaraeol morwrol. Mae'r datblygiadau ym Mhwllheli hefyd wedi bod yn gaffaeliad mawr. Gan gynnwys nifer y llynoedd, gall rhywun weld y manteision i ddilynwyd y campau hyn. Yn wir, os oes unrhyw un â diddordeb mewn mynychu cyrsiau, neu ailgydio yn y gamp o hwylio, mae Clwb Hwyl y Felinheli yn ennill cryn statws erbyn hyn, yn enwedig yn ei hyfforddiant a datblygiad ieuencid. Am fwy o fanylion cysylltwch â Darren West (01248 670714).

Un sydd wedi elwa o ymaelodi â Chlwb y Felinheli yw Morys Williams, 12 oed o Lanrug, sy'n ddisgybl yn Ysgol Tryfan. Mae Morys wedi bod yn aelod o Glwb Felinheli ers dwy flynedd ac yn hwylio yn nosbarth yr Optimist. Mae hyfforddwyr y clwb, a'r rhai y Mhlas Menai hefyd, yn cadw golwg ar yr hwylwyr ieuanc addawol fel y gellir eu rhoddi ar gyrsiau datblygu pellach.

Yn ystod y tymor bu 5 ras yn y gogledd, rhai ar y môr oddi ar Llandudno ac craill yn y llynoedd, fel Llyn Tegid. Mae pob ras yn cael ei graddio, ac ar sail y perfformiadau, gwahoddiwyd Morys i fod yn aelod o garfan Cymru yn y dosbarth Optimist - un o 13 o hwylwyr ieuanc. Mae'r garfan wedi cyfarfod bum gwaith yn ystod y gacaf, ym Mhlas Menai i feithrin techneg, ac yna y gwir brofiad ar y môr o amgylch Penrhyn Llŷn. Fel carfan, bu tair ras bwysig

yn y gwanwyn, haf a'r hydref - y ddwy ras gyntaf ar Rutland Water a Grantham Water yn Lloegr, ac yn Lays yn yr Alban. Yn y rasmus yma mae carfan Cymru yn cystadlu yn erbyn timau rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Yn naturiol, yma mae'r dewiswyr sydd yn chwilio am y gwir dalent fydd, gobeithio ymhen blynnyddoedd, yn cynrychioli'r tîm Olympaidd.

Yn ystod yr hydref aeth Morys, a thri arall o garfan Cymru, draw i Dun Laoghaire yn Iwerddon ar gyfer cystadleuaeth wedi ei threfnu gan Gymdeithas Hwyl Iwerddon. Roedd 41 yn hwylio a gorffennodd Morys yn yr wythfed safle. Roedd hwn yn rhoddi iddo y tlws am y 'tramorwr gorau', a gwelir Morys gyda'r tlws yn y llun. Hefyd mae ganddo'r darian fel Pencampwr Gogledd Cymru.

Fel nifer o'n prif sêr yn yr ardal yma, mewn sawl mae, i wella safon rhaid wrth ymroddiad pendant a chryn deithio ar gyfer penwythnosau hyfforddi a chystadlu. Mae Morys yn gwerthfawrogi cefnogaeth parod ei rieni, a dymunwn yn dda iddo yn y dyfodol.

Statos - Go Iawn

Mae tîm cwis clwb pêl-droed iau Llanrug wedi brwydro drwodd i rownd derfynol cwis chwaraeon bore Sadwrn ar Radio Cymru. Cafwyd perfformiaad gwych o dan arweiniad y capten, Meilir Jones. Llwyddwyd i ateb y pum cwestiwn yn llwyddiannus - un yn fwy na chyfanswm eu gwrthwyncbwyr, tîm pêl-droed merched Pwllheli. Ymlaen i'r rownd derfynol felly ac ymgiprys am y brif wobr, sef cit pêl-droed cyflawn. Efallai hefyd y bydd y rownd derfynol yn cael ei darlledu o'u 'cartref' oddi ar y cae, sef tafarn Penbont. Rhag ofn na chlywsoch chi'r rhaglen, dyma oedd y cwestiynau. Ellwch chi eu hateb?

- Pa gyn gapten pêl-droed Lloegr fu farw yn 1993?
- I pa dim pêl-droed yn yr Eidal yr oedd Des Walker yn chwarae?
- Wedi ail addasu'r cwti canol yn Wimbledon, beth fydd cyfanswm y dorf pan yn llawn?
- Ym mha flwyddyn y darlledwyd y rhaglen 'Match of the Day' am y tro cyntaf?
- Enwch un o'r timau craill yng ngrŵp Cymru yn rowndiau rhagbrofol Cwpan Pêl-droed y Byd?

Atebion ar dud. 20

Pocedu'r Tlws



Un o'r meysydd lle mae Cymry ieuanc yn gwneud eu marc ar hyn o bryd yw ym myd snwcer. Mae Mark Williams yn barod yn cael ei gyfrif fel un o gewri'r gamp, sy'n ymestyn yn ôl i gyfnod Ray Reardon. Mae Mathew Stevens yn bencampwr Prydain, a bydd yn siomedig os aiff allan yn fuan o Bencampwriaeth Agored Cymru yng Nghaerdydd.

Yn Llanrug, mae nythaid o chwaraewyr ifanc yn dechrau gwneud eu marc, a braf gweld clwb snwcer Bethel, sy'n cynnwys ambell chwaraewr ifanc, ar frig eu cynghrair hwy.

Ar waelod y gynghrair 'oedolion' mae Llanrug Blacks, ond yn ddiweddar cafwyd cryn sgallp pan drechwyd tîm Cons. Caernarfon 4-2 yng Nghwpan Patterson. Y Cons. yw un o brif dimau y gynghrair, a hwy sy'n arwain Adran 1 ar hyn o bryd. Tipyn o Wolves yn erbyn Man Utd! Oherwydd y gwahaniaeth safle - prif dîm Adran 1 yn erbyn tîm gwaelod Adran 2 - roedd criw ifanc Llanrug yn cael 'start' o 35 pwynt pob gêm. Er y fantais yma, rhaid canmol perfformiad y 'cywion' o gofio

profiad chwaraewyr y Cons.

Mae'n stori hollol wahanol pan mae'r tîm ieuanc yn chwarae yng nghynghrair eu hoedran. Mae pum tîm yn y gynghrair, 2 o Lanrug, 2 o Waunfawr ac un o Groeslon. Mae pob tîm yn chwarae gartref ac i ffwrdd, gyda'r ddau dim uchaf yn chwarae yn erbyn ei gilydd am y tlws. Mewn rownd derfynol safonol, curodd Llanrug Browns dim 'A' Waunfawr o 4-2.

Aelodau'r garfan lwyddiannus oedd Jake Burston (Capt), Dylan Eddy, Gareth Jones, Gethin Wakeham, Aled Williams, Dafydd Williams a Jason Parry.

Hyd yn hyn y toriad gorau a gaed yn ystod y tymor oedd 52 mewn gêm 'gyfeillgar' rhwng Dylan ac Aled.

Mae tîm Llanrug Reds ar waelod Adran 1 y gynghrair ar hyn o bryd, er bod Aled Roberts, y capten, yn chwarae'n gyson dda. Y gobaith, fel ym mhob camp, yw y daw llwyddiant i unrhyw glwb sy'n barod i roddi amser a chyfleuster i feithrin talent ymysg yr ieuanc.

Gwerth eu Lle?

Yn ffodus, anaml iawn y galwyd arnaf i fod yn ddewiswr. Peth anodd yw dewis tîm ar unrhyw lefel, yn enwedig o gofio canlyniad penderfyniadau gwael.

Dwy stori ryscddol ddcnodd fy sylw. Y cyntaf, o fyd rygbi, oedd dewis hyfforddwr nesaf Tim y Llcwod Prydeinig i ymweld â Seland Newydd yn 2005. Y ffefryn pendant yw Syr Clive Woodward, hyfforddwr Lloegr a hyfforddwr Pencampwyr y Byd. Dim problem, meddech chi, pwy well ellir ei gael? Mae rhai yn grwgnach pe dcwisir y Sais, yna prin fydd cynrychiolaeth o'r gwledydd eraill. Ar pa sail y dewisir y tîm felly?

Yna, cais Llundain i ddenu'r gemau Olympaidd. Os yn llwyddiannus, y bwriad fuasai defnyddio Stadiwm y Mileniwm ar gyfer y gemau pêl-droed. Iawn, ond tîm Prydain Fawr fuasai yn y gemau. Yn y

byd proffesiynol, mae rhai o'r cymdeithasau tramor, yn enwedig y bloc Asiaidd ac Affricanaidd, wedi awgrymu mai tîm Prydeinig yn unig ddylai gystadlu yng Nghwpan y Byd.

O ddewis o dimau Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, pwy fuasech chi yn ddewis o'r chwaraewyr presennol? Dyma fy ymgais i, a gwaith anodd oedd hi. Anodd iawn oedd dewis gôl-geidwad ar gyfer y lefel yma - ychydig iawn o gol-geidwaid Prydeinig sydd yn yr Uwch Gynghrair. Hefyd anodd oedd darganfod lle i unrhyw chwaraewr o dimau'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Er mwyn pwynt trafod, dyma fy nwyd i gan ddefnyddio'r dull 4-4-2.

James (Neville (G), Ferdinand, Campbell a Cole
Gerrard, Beckham, Scholes, Giggs
Hartson, Owen

Ydych chi'n cytuno?